RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
38/2023
DYDDIAD CYHOEDDI:
30/03/2023

# Cyd-gynhyrchu

## Ymchwil i ategu Adroddiad Terfynol Gwerthuso *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English

© Hawlfraint y Goron
ISBN Digidol 978-1-80535-347-8

Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

# Cyd-gynhyrchu

Ymchwil i ategu Adroddiad Terfynol Gwerthuso *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014*

Nick Andrews,[1] Gideon Calder,[2] Noreen Blanluet[3] a Rae Baker[3]

Tîm yr astudiaeth: Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, Prifysgol De Cymru, Prifysgol Abertawe, Prifysgol Metropolitan Caerdydd, Prifysgol Bangor

Andrews N., Calder G., Blanluet N. a Baker R. (2023) Cyd-gynhyrchu *Ymchwil i ategu Adroddiad* Terfynol *Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.* Caerdydd. Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 38/2023. Ar gael ar: https://www.llyw.cymru/cyd-gynhyrchu-ymchwil-i-gefnogi-adroddiad-terfynol-y-gwerthusiad-o-ddeddf-gwasanaethau-cymdeithasol-llesiant-cymru-2014.

Barn ymchwilwyr a fynegir yn yr adroddiad hwn, nid, o angenrheidrwydd barn Llywodraeth Cymru. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:

Adran Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: ymchwil.iechydagwasanaethaucymdeithasol@llyw.cymru

[1] School of Health and Social Care, Prifysgol Abertawe

[2] School of Social Sciences, Prifysgol Abertawe

[3] Co-production Network for Wales

## Tabl y Cynnwys

Rhestr Termau

1. Rhagarweiniad ........ 4
   - Cyd-destun ........ 4
   - Cyd-gynhyrchu ........ 6
   - Diben a Rhychwant ........ 7
2. Methodoleg ........ 9
3. Canfyddiadau a sylwadau ........ 13
   - Dealltwriaeth o drefniadaeth a strategaeth ........ 14
   - Cyfranogiad ........ 21
   - Ffactorau galluogi (analluogi) ........ 29
4. Crynodeb ........ 44
5. Cyfeiriadau ........ 48

**Rhestr y Tablau**

Tabl 1.1: Pum egwyddor y ddeddf a phum parth yr astudiaeth ........ 5

**Rhestr Termau**

| Acronym/Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| ALI | Awdurdodau Lleol |
| Asesiadau | Cynhelir asesiadau gydag unigolion er mwyn ffocysu ar yr hyn sydd ei angen ar unigolion i ddiwallu'r anghenion hynny, ac asesir gofalwyr er mwyn canfod y cymorth sydd ei angen arnyn nhw. Mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i awdurdod lleol gynnig asesiad i unrhyw oedolyn, plentyn a gofalwr sydd angen gofal a chymorth. |
| Atal ac Ymyriad Cynnar | Nod y ddeddf ydy sicrhau y gall pobl ofyn am yr help sydd ei angen arnyn nhw ar yr adeg maen nhw ei angen er mwyn atal i'w sefyllfa eu hunain rhag gwaethygu, ac y gall gofalwyr gyrchu cymorth i'w helpu yn eu rôl gofalu a chynnal eu llesiant eu hunain. |
| BSL | Iaith Arwyddion Prydain |
| CAMHS | Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed |
| Cyd-gynhyrchu | Nod y Ddeddf ydy cael pobl i ymglymu mwy yng nghynllun a darpariaeth eu gofal a'u cymorth. Mae'n golygu bod sefydliadau a gweithwyr proffesiynol yn gweithio gyda nhw a'u teuluoedd, eu ffrindiau a'u gofalwyr i sicrhau eu bod yn derbyn y gofal gorau posibl |
| Cynorthwywyr Personol, PAs | Mae cynorthwyydd personol yn cynnig gofal a chymorth person-ganolog i unigolion fel y gallan nhw gyflawni canlyniadau llesiant personol lle mae'r unigolyn yn byw. |
| Eiriolaeth / eirioli | Gall gwasanaethau eirioli helpu pobl i gyrchu gwybodaeth a gwasanaethau, ymglymu ym mhenderfyniadau am eu bywydau eu hunain, ystyried dewisiadau ac opsiynau a mynegi eu dymuniadau a'u hanghenion. |
| Gweithio aml-asiantaethol | Nod y Ddeddf ydy atgyfnerthu'r cydweithio rhwng sefydliadau gofal a chymorth er mwyn sicrhau bod y mathau priodol o gymorth a gwasanaethau ar gael mewn cymunedau lleol i ddiwallu anghenion pobl. |
| IMPACT | Gwerthusiad annibynnol o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant |
| Llais a Rheolaeth | Un o egwyddorion y Ddeddf ydy Llais a Rheolaeth sy'n ceisio rhoi unigolion a'u hanghenion ynghanol eu gofal a'u cymorth, defnyddio'u 'llais a rheolaeth' ym mater y canlyniadau a all eu helpu i gyflawni llesiant a'r pethau hynny sydd bwysicaf iddyn nhw. |
| Llesiant | Nod y Ddeddf ydy bod llesiant ymhob agwedd o fywyd pobl. Mae llesiant yn fwy na bod yn iach. Mae'n ymwneud â bod yn ddiogel a hapus, bod ddewis gan bobl a derbyn y cymorth priodol, bod yn rhan o gymuned gref, bod gan bobl ffrindiau a chysylltiadau sydd yn dda iddyn nhw a chael hobïau, gwaith neu'n dysgu. |

| Acronym/Gair Allweddol | Diffiniad |
|---|---|
| Nam ar y synhwyrau | Term cyffredinol ydy nam ar y synhwyrau i ddisgrifio colli synhwyrau  o ran pellter h.y. golwg a chlyw. Mae pedwar math o golli synhwyrau: clyw, gweledol, dall fyddar, defnyddiwr Iaith Arwyddion Prydain i'r byddar (BSL). |
| P-FE | Gwerthusiad wedi'i Ffocysu ar Egwyddorion |
| SERG | Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth |
| Sgwrs am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' | Mae sgyrsiau am 'Yr Hyn sy'n Bwysig' yn fodd i weithwyr proffesiynol ddeall sefyllfa pobl, eu llesiant cyfredol a'r hyn y gellir ei wneud i'w cynorthwyo. Mae'n sgwrs gydradd ac yn bwysig i helpu sicrhau bod llais yr unigolyn neu'r gofalwr yn cael ei glywed a'r 'hyn sy'n bwysig' iddyn nhw. |
| Taliadau Uniongyrchol, TU | Mae Taliadau Uniongyrchol yn galluogi unigolion a/neu eu gofalwyr yr aseswyd bod ganddyn nhw anghenion cymdeithasol cymwys i chwilio am ofal sydd wedi'i deilwra i'w hanghenion personol yn hytrach na defnyddio darparwyr statudol sydd eisoes yn bodoli. Eu diben ydy cynnig mwy o hyblygrwydd, annibyniaeth a dewis a rheolaeth dros y cymorth y mae pobl yn ei dderbyn. |
| WIHSC | Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru, rhan o Brifysgol De Cymru. |

# 1. Rhagarweiniad

1.1 Comisiynodd Llywodraeth Cymru bartneriaeth o academyddion ar draws pedair prifysgol yng Nghymru ac ymgynghorwyr arbenigol i lunio gwerthusiad o *Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru*) 2014 (y cyfeirir ati o hyn fel 'y Ddeddf').

1.2 Mae'r gwerthusiad cenedlaethol annibynnol sef astudiaeth IMPACT– IMPACT study[4] – wedi bod yn rhedeg ers Tachwedd 2018 dan arweiniad Yr Athro Mark Llewellyn, Cyfarwyddwr Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru (WIHSC) ym Mhrifysgol De Cymru ynghyd â'r Athro Fiona Verity, Athro Gwaith Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol Prifysgol Abertawe.

1.3 Mae'r bartneriaeth hefyd yn cynnwys cydweithwyr o Brifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Bangor a Chanolfan PRIME Cymru ac yn derbyn cymorth gan SERG (Grŵp Cyfeirio Arbenigol Astudiaeth) Study Expert Reference Group (SERG)[5] gyda'i dri chyd-gadeiryddion o ddinasyddion.

**Cyd-destun**

1.4 Mae'r Ddeddf yn gosod allan weledigaeth Llywodraeth Cymru i greu 'newidiadau trawsnewidiol ym mholisi, rheoliad a threfniadau cyflenwi gwasanaethau cymdeithasol ar draws Cymru. Mae'r newidiadau hyn wedi'u seilio ar bum egwyddor sydd wedi'u hymgorffori ar draws 11 rhan y Ddeddf. Yn gydnaws â hi mae strwythurau, prosesau a chyfres o Godau Ymarfer.

1.5 Mae'n bwysig nodi natur yr egwyddorion a'r modd y maen nhw'n cael eu hamlygu ym mhrofiadau defnyddwyr gwasanaethau, gofalwyr a'r gweithlu. Dydy'r pum egwyddor ddim yn gweithredu ar wahân i'w gilydd – mae'n nhw'n cyd-berthyn ac yn gyd-gysylltiedig. Mae athroniaeth sylfaenol pob un yn gorgyffwrdd ac, fel y cyfryw, ym mhrofiadau pobl mae'n anodd weithiau gwahanu un egwyddor oddi wrth y lleill.

1.6 Er enghraifft, mae bron yn amhosibl dychmygu sut gall cyd-gynhyrchu fodoli fel egwyddor heb yn gyntaf sicrhau bod gan bobl lais a rheolaeth dros eu gofal a'u cymorth. Yn yr un modd, mae atal, yn aml yn gofyn bod 'cynnig' aml-asiantaethol wedi'i sefydlu cyn y gellir atal argyfwng. Yn olaf, nod yr holl egwyddorion yn y pen draw ydy cynnig canlyniadau llesiant gwell i bobl ac mae hynny'n egwyddor ynddo'i hun.

---

[4] Ceir ffilm ragarweiniol ddwyieithog yn egluro strwythur yr astudiaeth yma: Ffilm gwerthuso'r Ddeddf / Act evaluation film – WIHSC - YouTube

[5] Am ragor o wybodaeth am SERG, gweler: Study Expert Reference Group | University of South Wales

1.7 Fel y cyfryw, wrth ddarllen yr adroddiad hwn, er ei fod yn ffocysu ar un egwyddor yn unig. Mae hyn yn adlewyrchu natur rhyng-gysylltiedig yr egwyddorion fel y nodir uchod. Caiff tystiolaeth fel hyn eu syntheseiddio yn yr Adroddiad Terfynol sy'n tynnu deunydd o hwn, ac o'r adroddiadau a luniwyd ar yr egwyddorion eraill.

1.8 Ynghyd â'r pum egwyddor, rydyn ni wedi nodi pum parth lle mae egwyddorion y Ddeddf yn 'cwrdd' â'r bobl neu'r sefydliadau y dylai'r Ddeddf fod yn effeithio arnyn nhw – unigolion sydd angen gofal a chymorth, eu gofalwyr ac aelodau eu teuluoedd, y cymunedau y maen nhw byw ynddyn nhw, y gweithlu sy'n eu cynorthwyo a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb a dyletswyddau i'w cyflawni fel yr amlinellwyd yn y Ddeddf a'r Codau Ymarfer cysylltiol.

**Tabl 1.1: Pum egwyddor y Ddeddf a phum parth yr astudiaeth**

| Egwyddorion | Parthau |
|---|---|
| – Llesiant | – Dinasyddion |
| – Llais a rheolaeth | – Teuluoedd a Gofalwyr |
| – Cyd-gynhyrchu | – Cymunedau |
| – Gweithio aml-asiantaethol | – Gweithlu |
| – Atal ac ymyriad cynnar | – Sefydliadau |

1.9 Mae'r astudiaeth werthuso, yn gyffredinol yn cynrychioli asesiad annibynnol a gwrthrychol o weithrediad y Ddeddf a'r modd y mae wedi effeithio ar lesiant y bobl sydd angen gofal a chymorth a'u gofalwyr. I sicrhau hyn, rydyn ni wedi tynnu ar ddull Michael Patton (2018) o fynd ati yn ei fframwaith 'Gwerthuso gan Ffocysu ar Egwyddorion' (P-FE), a ddefnyddiwn fe sail ddamcaniaethol a chysyniadol ar gyfer ein hastudiaeth.[6] Mae tri chwestiwn allweddol y mae Patton yn ein hannog i'w hystyried fel rhan o unrhyw P-FE (2018, tud.27-29):

1. I ba raddau cafodd egwyddorion ystyrlon y gellir eu gwerthuso eu disgrifio?
2. Os disgrifiwyd egwyddorion, i ba raddau ac ym mha ffyrdd y cedwir atyn nhw yn ymarferol?

[6] Am ragor am y P-FE gweler Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE*. New York: Guilford Press. I weld sut mae P-FE yn berthnasol i'r astudiaeth hon, gweler Pennod 2 yn Llewellyn M., Verity F., Wallace S. a Tetlow S. (2022). *Expectations and Experiences: Service-user and Carer perspectives on the Social Services and Well-being (Wales) Act.* Caerdydd, Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR report number 16/2022. Ar gael ar: Evaluation of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014: expectations and experiences.

3. Os cedwir atyn nhw, i ba raddau ac ym mha ffyrdd mae'r egwyddorion yn arwain at y canlyniadau dymunol?

1.10 Mae cysylltiad clir rhwng cwestiynau Patton, meysydd ymholiad ar gyfer ein hastudiaeth a phum egwyddor sylfaenol y Ddeddf. Caiff y cysylltiadau hyn eu hystyried yn fanwl fesul egwyddor mewn cyfres o adroddiadau ac mae'r adroddiad hwn yn un ohonyn nhw. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar egwyddor cyd-gynhyrchu ac mae'r awduron yn is-dîm grŵp o fewn astudiaeth gwerthuso IMPACT sydd â diddordeb arbennig ac arbenigedd yn y pwnc hwn.

**Cyd-gynhyrchu**

1.11 Mae *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014* yn gosod dyletswydd ar Fyrddau Iechyd ac Awdurdodau lleol i hyrwyddo llesiant, o ran dinasyddion a chymunedau– ac yn datgan bod 'dull o fynd ati sy'n seiliedig ar egwyddorion cyd-gynhyrchu yn hanfodol i gyflawni'r ddyletswydd hon'. Yn y Codau Ymarfer, caiff yr egwyddorion hynny eu hegluro yn nhermau dull o fynd ati sy'n:

a) sylweddoli bod pobl yn asedau a bod ganddyn nhw gyfraniad positif i'w wneud i gynllunio a gweithrediad y gwasanaethau,
b) grymuso pobl i gyfrannu at eu llesiant eu hunain
c) sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gweithio mewn partneriaeth gyda phobl i gyflawni canlyniadau llesiant i unigolion ac ar lefel gwasanaeth,
d) ymglymu pobl i gynllunio canlyniadau ar gyfer gwasanaethau,
e) cynorthwyo a grymuso pobl i ymglymu yng nghynllun a gweithrediad y gwasanaethau (Llywodraeth Cymru 2014, tud. 52).

1.12 Rhaid bod gan awdurdodau lleol:

- 'drefniadau trylwyr ar waith i annog pobl i ymglymu… er mwyn i sefydliadau a threfniadau gael eu cynllunio a'u harwain gan bobl sydd angen y gofal a'r cymorth, a gan ofalwyr sydd angen cymorth' (tud. 51).
- 'drefniadau tryloyw lle mae pobl yn bartneriaid cydradd yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaethau' (Llywodraeth Cymru, 2014, tud. 55)

1.13 Dau beth hanfodol ar gyfer cyd-gynhyrchu ydy:

- 'newid meddylfryd' o ran ymarfer perthynol a chilyddol
- gwerthfawrogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn gyfartal' (Llywodraeth Cymru, 2014, tud.53).

1.14 Ynghyd â'r egwyddorion a'r nodau blaenorol, mae'r ddau ymadrodd cryno hyn yn cynnig y modd hawsaf, mwyaf uniongyrchol, o fesur ffeithiau'r Ddeddf hyd yn hyn. Byddwn yn dychwelyd atyn nhw ar ddiwedd yr adroddiad hwn.

**Diben a rhychwant**

1.15 Gwnaed y gwaith hwn i fynd i'r afael â chwestiwn trosfwaol Y Broses Werthuso (Llewellyn et al., 2021, tud. 120): i ba raddau mae cyd-gynhyrchu ar lefel unigolion a gwasanaeth wedi cael ei ymgorffori yn arferion gwasanaethau cymdeithasol ac asesiad?

1.16 Disgrifiwyd gweithredu'r Ddeddf fel 'taith barhaus' (Ibid). Ein nod yn yr adroddiad hwn ydy asesu'r cam ar y daith honno hyd yn hyn o safbwynt y rhai sy'n ceisio ymgorffori arferion cyd-gynhyrchiol. Yn ystod y cyfnod gwerthuso proses, nodwyd nifer o ddarpar sialensiau a rhai cyfredol i weithredu cyd-gynhyrchu, yn cynnwys:

- diffyg dealltwriaeth ar ran ymarferwyr a sefydliadau o'r hyn ydy cyd-gynhyrchu a'r hyn mae'n gofyn amdano
- bylchau yn y cymorth sydd ei angen i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwr di-dâl yn cyfranogi'n llawn ym mhrosesau cyd-gynhyrchu
- anawsterau i gynnwys diddordebau amrywiol ymhlith y rhai sy'n cymryd rhan
- sicrhau'r math o gymorth gan uwch arweinwyr a'r 'prynu i mewn' sydd ei angen ar sefydliadau ar gyfer addasu'n realistig i ddulliau cyd-gynhyrchiol o weithio (Ibid, tud.20-30).

1.17 Adleisir y pwyntiau hyn yng nghanfyddiadau ein hadroddiad, *Gwerthuso Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Disgwyliadau a Phrofiadau* (Llewellyn et al 2022), ond hefyd ehangwyd arnyn nhw wrth i'n cyfranwyr drafod eu profiadau.

1.18 Fel y nodwyd uchod, prif ffocws yr adroddiad fydd cyd-gynhyrchu, ond cyfeirir hefyd at y dulliau y mae rhai egwyddorion eraill y Ddeddf (atal ac ymyriad cynnar, llais a rheolaeth, gweithio aml-asiantaethol a llesiant) yn cyd-berthyn gydag atal yn y dystiolaeth a ystyrir yma. Diben yr adroddiad hwn ydy canolbwyntio ar gyd-gynhyrchu ar lefel yr unigolyn a lefel gwasanaeth. Wrth gwrs, bydd ychydig o orgyffwrdd gyda llais a rheolaeth. Ond, mae cyd-gynhyrchu yn wahanol yn ei ffocws ar gyd-berthynas a chyd-fuddion ar bob lefel.

1.19 Mae’n tynnu ar ddeunydd newydd o gyfres o weithdai a gynhaliwyd yn ystod 2020 a 2021 gyda rheolwyr sefydliadau’r awdurdodau lleol, sefydliadau sy’n ddarparwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr di-dâl a'r rhai sy’n eu cynorthwyo, fel modd o fynd ‘r afael ag ystod o wasanaethau a grwpiau y mae’r Ddeddf yn effeithio arnyn nhw.

1.20 Rhychwant yr adroddiad hwn ydy casglu’r dystiolaeth am gyd-gynhyrchu ynghyd, a thrwy hynny cynnig canolbwynt i’r egwyddor hon ar gyfer y rhai sydd â diddordeb. Rydyn ni’n casglu’r cyfryw themâu at ei gilydd yng nghrynodeb y ddogfen hon (Pennod 4) a chynnig argymhellion penodol i faes cyd-gynhyrchu. Rhaid ystyried y rhain yng nghyd-destun y canfyddiadau cyffredinol, y casgliadau a’r argymhellion a geir yn yr Adroddiad Terfynol (Llewellyn et al., 2023).

## 2. Methodoleg

2.1 I gasglu data am gyd-gynhyrchu, fe gynhalion ni gyfres o weithdai yn ystod 2020 a 2021 gyda rheolwyr sefydliadau’r awdurdodau lleol a sefydliadau sy’n ddarparwyr, ymarferwyr, defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr di-dâl a'r rhai sy’n eu cynorthwyo fel modd o fynd i’r afael ag ystod o wasanaethau a grwpiau a effeithir gan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

2.2 Yn 2020 cynhalion ni dri gweithdy grŵp cymysg, un wyneb yn wyneb a dau ar-lein. Cymerodd 24 o bobl ran. Gwahoddwyd y rheiny oedd yn aelodau o Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Ymarferwyr a rheolwyr sefydliadau oedd mwyafrif y cyfranogwyr ond hefyd yn cynnwys nifer fechan i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Yn 2021 gweithio’n ni’n agos gyda chynulleidfa benodedig o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr mewn 10 gweithdy ar-lein a phedwar cyfweliad ar-lein. Cymerodd 64 o bobl ran. Gwahoddwyd cyfranogwyr drwy rwydweithiau cyfredol o sefydliadau sydd dan arweiniad defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr. Roedd rhai o weithdai defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl yn 2021 yn cynnwys ymarferwyr mewn rôl cynorthwyol. Yn 2021, fe gynhalion ni 11 o weithdai, pob un yn targedu un o'r grwpiau canlynol:

- pobl ddall a phobl â nam ar eu golwg
- pobl yn byw gyda sialensiau iechyd meddwl
- pobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw
- pobl â dementia
- pobl ag anableddau dysgu
- pobl â nam corfforol
- gofalwyr di-dâl
- rhieni yn ymwneud â diogelu plant

2.3 Dewison ni sampl yn bwrpasol i sicrhau cynrychiolaeth amrediad o is-grwpiau o ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl ar draws Cymru. Er i ni drio, ni lwyddon ni i ymglymu plant a phobl ifanc na phobl hŷn gydag anghenion cymorth dwys (gweler 2.6).

2.4 Cynhaliwyd pob un ond dau o’r gweithdai hyn drwy gyfarfodydd ar-lein yn ystod 2020 a 2021. Yr eithriadau oedd: trafodaeth wyneb yn wyneb gyda rhieni yn ymwneud â diogelu plant a gynhaliwyd yng Nghaerdydd yn 2021 a gweithdy cyntaf

grŵp cymysg a gynhaliwyd yng Nghasnewydd cyn pandemig COVID-19 yn 2020. Neilltuwyd dwy awr ar gyfer pob sesiwn gydag egwyl hanner ffordd drwy'r sesiwn – er y byrhawyd hyn lle roedd y nifer o gyfranogwyr yn gymharol fach. Hwyluswyd pob gweithdy gan y tri awdur, naill ai fel tîm o dri neu mewn cyfuniad llai. Yr un oedd strwythur y drafodaeth ymhob achos (h.y. cyfarfodydd a chyfweliadau unigol) a'u fframio yng nghyd-destun Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

- Croeso a chyflwyniadau
- **Rhan 1** – Pob cyfranogwr yn cael 2 funud i rannu **profiadau positif** o ymwneud â chyd-gynhyrchu. Trafodaeth fer yn dilyn
- **Rhan 2** – Pob cyfranogwr yn cael 2 funud i rannu **profiadau negyddol** o ymwneud â chyd-gynhyrchu. Trafodaeth fer yn dilyn
- **Rhan 3** – Trafodaeth grŵp am **yr hyn sydd wedi newid (er gwell neu er gwaeth)** o ganlyniad i ymglymiad cyfranogwyr mewn cyd-gynhyrchu.

2.5 Yna, trawsgrifiwyd pob trafodaeth a'u dadansoddi fesul thema, drwy fframwaith codio newydd, tynnwyd rhestr o godau o'r testunau ac yna'u mireinio mewn modd lle gellid canfod anghysonderau o ran y termau a ddefnyddiwyd a'r themâu a drafodwyd.

2.6 Fe gydag unrhyw ddull, mae cyfyngiadau yn y dull hwn o fynd ati ac mae tri o'r dulliau hyn yn bwysig:

- Ni chlywyd pob llais. Mae hyn yn berthnasol i grwpiau arbennig – felly ceisiwyd cael barn plant a phobl ifanc a phobl hŷn gydag anghenion cymorth uchel ond ni lwyddwyd (gweler 2.3), ac oherwydd eu bod yn gymharol fach a'r cyfranogiad yn hollol wirfoddol, doedd y grwpiau yr ymgynghorwyd â nhw ddim yn berffaith gynrychioladol.
- Ar draws y sesiynau, cafwyd amrywiaeth yn y cydbwysedd rhwng defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr o gyfranogwyr.
- Er bod rhesymau cadarn dros ddelio gyda'r grwpiau hyn ar wahân, er mwyn ffocysu ar eu safbwyntiau a phrofiadau arbennig nhw eu hunain, cafwyd diffyg cyfle i 'gymysgu' safbwyntiau mewn un sesiwn – fel y gallai cyfranogwyr o wahanol gefndiroedd gymharu ac ystyried y problemau a'r profiadau yn codi ar draws gwahanol gyd-destunau

Cafodd y cyfyngiadau hyn eu hystyried wrth ddadansoddi'r data a dod i gasgliadau.

2.7 Cyflwynir a thrafodir y canfyddiadau hyn o dan dri o'r pedwar pennawd a nodwyd yn wreiddiol yn yr Adolygiad Llenyddiaeth (Llewellyn et al 2021), a'u dehongli fel a ganlyn:

- dealltwriaeth o'r drefniadaeth a'r strategaeth: i ba raddau ac ym mha ffyrdd mae sefydliadau perthnasol wedi mabwysiadu cyd-gynhyrchu fel nod ac wedi gweithredu camau realistig i gyflawni hyn yn ymarferol?
- cyfranogiad: I ba raddau ac ym mha ffyrdd ymglymwyd defnyddwyr gwasanaeth gofalwyr di-dâl ac wedi'u grymuso fel partneriaid i gynllunio a gweithredu gwasanaethau?
- ffactorau galluogi (analluogi) [7]: lle mae cyd-gynhyrchu wedi gweithio, pa amodau neu ffactorau sydd wedi helpu hyn i ddigwydd? Os na wireddwyd hyn, pa amodau neu ffactorau sydd wedi'u llesteirio?

2.8 Ymhob achos, rydyn ni wedi ceisio nodi pethau negyddol a phethau cadarnhaol: enghreifftiau o gyd-gynhyrchu yn gweithio'n dda ac enghreifftiau pan nad oedd yn gweithio'n dda. Ar y cyfnod hwn, dydyn nhw ddim wedi'u gosod ar wahân: yn aml maen nhw wedi'u cymysgu a dim ond un agwedd o'r gweithredu fydd, fel arfer, yn cynnwys elfennau positif a negyddol ar yr un pryd. Mae hyn i'w ddisgwyl. Dydy dull cyd-gynhyrchiol o fynd ati ddim yn rhywbeth i'w fabwysiadu fel arfer safonol dros nos ac er mwyn ymgorffori cyd-gynhyrchu mewn modd ystyrlon, bydden ni'n disgwyl gweld yr elfennau positif a negyddol hyn yn digwydd gyda'i gilydd, wrth i sefydliadau ddod o hyd i'r hyn sy'n gweithio iddyn nhw. Mae hefyd yn werth nodi bod y sylwadau atodol yn yr adroddiad hwn yn fwriadol brin a chryno. Mae lleisiau'r cyfranogwyr, yn mynegi eu profiadau eu hunain, fel arfer mor effeithiol ag y gall unrhyw ffurf ar eiriau fod wrth nodi'r hyn sydd yn y fantol, pam ei fod yn bwysig, a meysydd allweddol ar gyfer sylw pellach.

2.9 Yn yr hyn sy'n dilyn, nodir lleisiau cyfranogwyr yn syml yn ôl teitl y gweithdy roedden nhw'n ei fynychu, a dalfyrrir fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **P** | Ymarferwyr (2020) (3 grŵp) |
| **BVIP** | Pobl ddall a phobl â nam ar eu golwg (1 grŵp) |

[7] Addaswyd y pennawd gwreiddiol 'Ffactorau galluogi' i ffactorau galluogi (analluogi) er mwyn gallu cynnwys rhwystrau.

| | |
|---|---|
| **DHIP** | Pobl fyddar a phobl â nam ar eu clyw (1 grŵp) |
| **LD** | Anabledd Dysgu (2 grŵp ac 1 cyfweliad unigol) |
| **MH** | Iechyd Meddwl (3 grŵp ac 1 cyfweliad unigol) |
| **PWD** | Pobl â dementia (1 grŵp) |
| **PICS** | Rhieni yn ymwneud â diogelu plant (1 grŵp) |
| **PPI** | Pobl â nam corfforol (1 grŵp) |
| **UC** | Gofalwyr Di-dâl (2 grŵp) |

2.10 Gweithdai ymarferwyr yn bennaf oedd gweithdai 2020 (term i gyfeirio at weithwyr proffesiynol ymhob rôl, yn cynnwys rheolwyr). Gweithdai gyda defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr yn bennaf oedd y rhai a gynhaliwyd yn 2021. Yn rhai o weithdai 2021, o gofio natur y gwasanaeth, roedd ymarferwyr yn bresennol ynghyd â defnyddwyr gwasanaeth. Yn y dyfyniadau isod, lle ceir llais ymarferydd, nodir hyn gan yr ôl-ddodiad ‘ymarferydd’ ar ôl cyfeiriad at y grŵp e.e. MH – ymarferydd )

## 3. Canfyddiadau a sylwadau

3.1 Mae'r adran hon yn cyflwyno canfyddiadau o'r gweithdai a ddisgrifiwyd yn adran 2. Fel y nodwyd yn 2.6, trefnir y canfyddiadau o dan dri phennawd:

- Deall y drefniadaeth a strategaeth;
- Cyfranogiad; a
- Ffactorau galluogi (analluogi) .

3.2 Mae'r penawdau hyn yn cynnig dull o gyfosod y canfyddiadau gyda'r themâu sy'n dod i'r amlwg yn yr Adolygiad Llenyddiaeth a gynhaliwyd yn ystod cam blaenorol yr astudiaeth. Maen nhw'n helpu i ddangos sut mae'r barnau a'r profiadau a gasglwyd yn cysylltu a'r hyn a wyddwn o ymchwil blaenorol yn y maes hwn. Maen nhw'n cynnig dull o wahanu'r syniadau sy'n codi, mewn modd sy'n caniatáu i'r materion dan sylw gael eu cymharu â phwyntiau eraill sy'n rhannu nodwedd gyffredin. Ategir pob un gan is-benawdau sy'n helpu i ddewis agweddau mwy penodol y ffocws a'r pryder.

3.3 Er mwyn eglurder:

- Dydy'r penawdau hyn ddim yn *cwmpasu popeth*. Dydyn nhw ddim yn dal pob manylyn. Yn hytrach, arwyddbyst cyffredinol ydyn nhw i ddewis a dethol bras nodweddion y dystiolaeth.
- Dydy'r penawdau hyn ddim yn *gyd-gyfyngedig*. Dydy barn a phrofiadau pobl ddim yn dueddol o rannu'n glir i wahanol gategorïau. O gofio hyn, mae gwahanol benawdau yn gorgyffwrdd. Penderfynon ni beidio ag ailadrodd pwyntiau o dan benawdau gwahanol. Felly, mae paralelau rhwng materion ar draws benawdau. Felly, er enghraifft: mae pwyntiau am drefniadaeth yn nodwedd ar draws y tair is-adran hyn; mae rhai o'r arsylwadau sy'n cael eu cynnwys yn 3.3 yn ymwneud â chyfranogiad (pennawd 3.2); ac mewn mannau yn 3.1 a 3.2, cawn gyfeiriad at ffactorau sydd wedi galluogi neu analluogi cyd-gynhyrchu.
- Mae'r penawdau *yn symlach na'r data a gasglwyd.* Mae'r dystiolaeth o'r gweithdai yn golygu set gyfoethog, eang, aml-haenog a chymhleth o fewn-welediadau. Bydd eu trefnu'n nifer fechan o gategorïau cyffredinol yn golygu cyffredinoli i raddau a'r risg o or-liwio'r graddau yr oedd gwahanol bobl yn dweud yr un peth. Bwriad y strwythur hwn ydy cynnig modd o gyfleu cyfoeth y data a hefyd caniatáu i gyfranogwyr leisio'u barn cymaint â phosibl yn ôl eu telerau hwy eu hunain.

3.4 Yn olaf, gan fod cyd-gynhyrchu yn digwydd rhwng defnyddwyr gwasanaeth a'r rhai sydd, fel arfer, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaeth, mae'r canfyddiadau yn aml yn ymwneud â dwy lefel y gweithgaredd. Er enghraifft, pan fydd y ffocws ar drefniadaeth, mae hefyd ar lefel profiadau unigolion o'r modd y mae materion trefniadaeth yn datblygu. Arweinir y dull hwn o fynd ati gan nod o ddal sut mae cyd-gynhyrchu yn datblygu'n ymarferol, o safbwynt y rhai oedd yn cymryd rhan.

**Dealltwriaeth o drefniadaeth a strategaeth**

3.5 Mae'r adran hon yn delio â'r ffyrdd y mae'r rhai sydd yn mynd ati i'w sefydlu yn deall ystyr cyd-gynhyrchu ac yn mynd ati i'w drefnu, Mae cyd-gynhyrchu yn cynrychioli dull penodol o weithio sydd, yn aml, yn groes i arferion a thybiaethau traddodiadol. Ar gyfer y mwyafrif sydd ynghlwm, mae'n gofyn am newid yn y gogwydd - ac o ran sefydliadau gallwn ddisgwyl y bydd llwyddo i gyd-gynhyrchu yn golygu ychydig newid yn y feddylfryd (gweler 1.10). Gan fwyaf, mae'r canfyddiadau a gyflwynir yn yr adran hon yn cyfeirio at i ba raddau y mae'r newid hwn yn feddylfryd wedi digwydd mewn gwirionedd:

*I ba raddau ac ym mha ffordd, mae sefydliadau perthnasol wedi mabwysiadu cyd-gynhyrchu fel nod ac wedi gweithredu camau realistig i'w gyflawni yn ymarferol?*

*Dehongli'r term 'cyd-gynhyrchu' yn gyffredinol ac yn y Ddeddf*

3.6 Drwy'r holl weithdai, y pryder mynych a fynegwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr oedd bod pobl yn aml **yn camddeall cyd-gynhyrchu**, bod cyd-gynhyrchu yn cael ei gyfleu yn aneglur, nad yw ei hynodrwydd yn cael ei werthfawrogi ac nad yw ei ddarpar fuddion yn cael eu cymharu â dulliau cyfredol o weithio (megis ymgynghori), a/neu'n cael ei fesur na'i werthuso drwy ddefnyddio dulliau priodol. Cawson ni hefyd gyfeiriadau at ddiffyg eglurder ar ran y rhai sy'n honni eu bod yn cyd-gynhyrchu am sut yn union roedd unigolion i fod i gyd-dynnu ac ymwneud â strwythurau er mwyn llwyddo i gyd-gynhyrchu.

*"Pam ei bod yn cymryd 20 tudalen o ddogfennaeth i egluro ystyr cyd-gynhyrchu?" (MH – ymarferydd)*

*"Dylid cloi [pob rheolwr] mewn ystafell nes eu bod yn gallu ateb papur o 45 cwestiwn ar ystyr cyd-gynhyrchu a chynnig enghreifftiau i ni hefyd ac yna dylen nhw ddychwelyd i wneud eu swyddi." (PWD)*

*"Ar y foment, mae'r syniad o gyd-gynhyrchu yn annelwig iawn, ymgynghori ydy'r rhan fwyaf ohono mewn gwirionedd. Nid cyd-gynhyrchu - ond yn hytrach ymgynghori " (UC)*

*“Mae camddealltwriaeth ynglŷn â’r hyn ydy cyd-gynhyrchu – mae’r cliw yn y gair - cyd-gynhyrchu ydy cynhyrchu rhywbeth gyda’n gilydd  ar y cyd ond mae camddealltwriaeth mawr iawn, iawn am hyn o fewn awdurdodau lleol” (UC)*

*“Mae'n teimlo fwy fel ymgynghoriad yn hytrach na chyd-gynhyrchiad … Doedden nhw [yr ALl] ddim yn fodlon cael pobl sy’n gwneud penderfyniadau yn yr ystafell. Felly, fe fyddai swyddogion yn yr ystafell, ond doedd gan y swyddogion hynny mo’r grym i wneud penderfyniadau.” (UC)*

*“Gofynnir i chi yn aml i gyfrannu, ond ni chewch wybod beth ydy’r nod, beth fydd y canlyniad ac os a phryd fyddai hynny yn digwydd… does dim adborth o gwbl ar y modd y defnyddiwyd eich* cyfraniad.” (UC)

3.7 Roedd rhai defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr yn canfod **amhendantrwydd yng ngofynion y Ddeddf** o ran cyd-gynhyrchu – a goblygiadau hyn yn nhermau trefniadaeth.

*“Mae’n [y Ddeddf] yn eitha aneglur  … o ran na fyddech chi’n gallu dweud yn union at beth mae’n cyfeirio [yn nhermau cyfleoedd ar gyfer cyd-gynhyrchu], felly, dydyn nhw ddim yn gallu eich diystyru os nad oes gennych lawer rhagor o wybodaeth.” (BVIP)*

*“Dw i ddim yn meddwl bod y Ddeddf ei hun cyn  [ein] gwaith yn hwyluso cyd-gynhyrchu, dw i’n meddwl bod y rhaglen drawsnewid, oherwydd ei bod wedi seilio ar gyd-gynhyrchu, wedi datblygu hynny ac am Ogledd Cymru, dw i ddim yn meddwl mai'r Ddeddf ei hun wnaeth hynny. Dw i ddim yn credu bod y Ddeddf yn cael ei monitro gan y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol…. pwy sy’n monitro’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol dros chwe awdurdod lleol? Pwy sy’n gwirio ar lawr gwlad bod llais a rheolaeth, llesiant, ymyriad cynnar a chyd-gynhyrchu yn digwydd? Neb.” (LD – ymarferydd)*

*Newid yn y drefniadaeth ac addasu*

3.8 Nododd rhai defnyddwyr gwasanaeth bod cyd-gynhyrchu wedi arwain at **sefydliadau i fod yn fwy effro i broblemau** hyd yn oed mewn achosion lle nad oedd y problemau hyn wedi cael eu datrys.

*“Os newidiwyd cyd-gynhyrchu yn ddiweddar, roedd pobl [mewn sefydliadau mawr] i ryw raddau yn sylweddoli beth oedd y problemau, ond dydyn nhw ddim yn eu datrys, tra doedden nhw ddim wedi bod ymwybodol o'r problemau cyn hynny.” (BVIP)*

3.9 Roedd hi’n glir o’r gweithdai bod gweithredu cyd-gynhyrchu ym marn defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr wedi bod yn **anwadal** ar draws awdurdodau lleol, ar draws gwasanaethau o fewn awdurdodau lleol ac ymhlith darparwyr y trydydd sector.

*"Ydy [cyd-gynhyrchu] bob amser yn gweithio yn ymarferol? Nac ydy – mae weithiau'n fylchog ac ysbeidiol, oherwydd bydd yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw  er enghraifft, eich awdurdod lleol. Mae rhai lleoedd yn fwy sensitif nag eraill, dw i'n credu." (UC)*

*"Mae pedwar prosiect trawsnewidiol ar draws Gogledd Cymru … y rhaglen drawsnewid [Anabledd Dysgu] oedd yr unig un oedd wedi'i seilio ar gyd-gynhyrchu [gan gyfeirio at y Ddeddf]." (LD - ymarferydd)*

*"Rydyn ni'n cael bod rhai awdurdodau lleol yn fwy sensitif nag eraill i rai o'r syniadau hyn ac mae cysondeb hynny weithiau'n rhwystredig, ond mae'r awdurdodau lleol sy'n derbyn y syniad hwn wedi cymryd yr amser hwn – cyfnod y COVID, i ystyried sut mae pethau'n cael eu gwneud a meddwl – rydyn ni am wneud pethau'n wahanol a'r hyn mae cael rhieni a gofalwyr a'u hanwyliaid yn rhan o'r broses honno yn ei olygu sy'n rhywbeth gwych dw i'n meddwl." (UC)*

3.10 Gallai hyn, yn rhannol, fod oherwydd tuedd ganfyddadwy tuag at **anhyblygrwydd y drefniadaeth**, sy'n creu math o **arafwch mewn addasu** i'r hyn sy'n ffordd newydd a hanfodol wahanol o weithio, gydag amrywioldeb yn deillio o ddiffyg cydgyfeiriad rhwng gwahanol sefydliadau a grwpiau buddiant dan arweiniad arferion gweithio blaenorol. Ystyriwyd bod yr anhyblygrwydd yn llesteirio'r rhyngweithio rhydd rhwng y rhai oedd ynghlwm, y mae cyd-gynhyrchu yn dibynnu arno. Dehonglwyd y diffyg cyfle a rhyddid i weithredu gan gyfranogwyr fel arwydd nad yw'r rhai sydd yn rheoli, o angenrheidrwydd yn deall gofynion cyd-gynhyrchu.

*"Mae popeth yn fiwrocrataidd ac ar delerau [y sefydliad statudol], y dull maen nhw wedi arfer gweithio ynddo" (UC)*

*"Mae [cyd-cynhyrchu] yn cwestiynu llawer o'r dulliau y mae pethau'n cael eu gwneud a dw i'n meddwl bod pobl yn ei ganfod yn eitha heriol" (P)*

*"Gallai gwasanaethau cymdeithasol ddweud "Rydyn ni wedi cynnig cymorth"… ond dydy hynny ddim yn ddefnyddiol iawn … rhaid i chi ffitio i mewn i'w gwasanaethau nhw" (PICS)*

*"Dwi'n meddwl ein bod i gyd wedi delio rywsut gydag awdurdodau lleol ar ryw adeg ac maen nhw'n gwneud gwaith ardderchog mewn rhai meysydd, ond mae'n hynod strwythuredig ac wedi'i reoli'n llym ac mae'r broses yn un glir. Dydy cyd-gynhyrchu ddim fel yna bob amser a dwi'n meddwl y bydd hi'n anodd iawn i bobl ollwng hynny" (UC)*

*“Maen nhw’n ysgrifennu polisïau newydd ac yn gwneud pethau ac yna ar y funud olaf, maen nhw’n ymglymu eu grwpiau anabledd lleol a phobl anabl. Maen nhw’n dweud eu bod am ymgynghori, ond mae hynny’n llwyth o [gair anaddas], oherwydd eu bod eisoes wedi ysgrifennu eu papurau a does dim byd byth yn newid.” (PPI)*

*“Mae cyd-gynhyrchu yn eithaf anhrefnus a dydy e ddim yn ffitio mewn gwirionedd i mewn i restr wirio a phroses awdurdod lleol.” (UC)*

*“Bydd rhaid i mi fynd nôl i’r swyddfa a gwirio a fydd y system yn ei ganiatáu” (P)*

*“Rheolir y system gan bobl eraill … nid y bobl y buoch yn gweithio gyda nhw sy’n llawn o fwriadau da [o ran cyd-gynhyrchu]” (UC)*

*“Dw i’n credu mai’r hyn sy’n rhywbeth mwy na chyd-gynhyrchu ydy’r ffaith bod rhaid i ni ddelio gyda'r holl reoliadau hynny a mynd i’r afael â nhw… cymaint o bwyslais ar a ydyn ni’n cwrdd â’r safonau … ond cyd-gynhyrchu … dylai fod yn naturiol” (P)*

3.11 **‘Hinsawdd Silo’** – nodwyd bod y duedd i weithio yn unol ag arferion sefydledig o fewn adrannau neu ddisgyblaethau yn hytrach nag ar eu traws, a hynny’n arwain at ddiffyg arferion ‘di-dor’, arfer wedi’i ffocysu ar broblemau – yn rhywbeth oedd yn rhwystro cyd-gynhyrchu ond hefyd yn rhywbeth posibl i’w oresgyn.

*“Mae’n ymwneud â goresgyn y silos… mae’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol … yn cyfarfod nawr i sefydlu … o dan un bwrdd rhaglen rwydwaith da sy’n llifo i fyny ac i lawr – chi’n gwybod, partneriaid cydradd o gwmpas y bwrdd ac mae mor anodd – mae mor anodd yn tydy, ond mae rhaid cael y silos hynny i gydweithio a gwneud gwahaniaeth.” (UC)*

3.12 Hyd yn oed lle mae sefydliadau yn amlwg wedi buddsoddi mewn cyd-gynhyrchu, dydy’r buddion efallai ddim bob amser yn glir ymhobman. Efallai bod angen **amynedd ar ran sefydliad** i ganiatáu iddyn nhw ddod i’r amlwg. Dangosodd canfyddiadau un awdurdod lleol eu bod wedi treulio llawer o amser yn datblygu cysylltiadau a chyd-weledigaeth o ran gofal a chymorth yn y cartref. Roedden nhw i gyd wedi cynnwys yr holl randdeiliaid dros gyfnod estynedig, Ond y teimlad oedd bod yr amser wedi’i dreulio’n dda o ran gwella canlyniadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.

*“Ceir parodrwydd didwyll [ymhlith rhai uwch rheolwyr i gyd-gynhyrchu] … fydden nhw ddim yn gwneud yr holl bethau maen nhw’n ei wneud petai ’na ddim … maen nhw dechrau gweld y manteision, er, dw i ddim yn meddwl ein bod yn glir beth ydy’r manteision hynny.” (MH)*

*“Dydyn nhw [llawer o lunwyr polisi a rheolwyr gwasanaeth] ddim yn deall ei fanteision [cyd-gynhyrchu]. Dydyn nhw ddim yn gweld y buddion sy’n deillio o gyd-gynhyrchu, maen nhw’n ystyried ei fod yn tynnu sylw o faterion o ddydd i ddydd sef cario mlaen gyda’r gwaith.” (PWD)*

*“Yn amlwg, maen nhw [uwch reolwyr mewn sefydliadau statudol] am weld y fantais ariannol … ond dw i'n meddwl bod angen gwneud mwy o waith ar hynny.” (LD – ymarferydd)*

*“Mae ein dull cyd-gynhyrchu o fynd ati i gynnig gofal cartref wedi arwain at ddynes 90 oed yn cwrdd â menyw 70 oed roedd hi'n arfer ei gwarchod, a daethon nhw ymlaen gyda’i gilydd a chyd-dynnu’n ardderchog … roedden ni’n arfer gwisgo un o’r menywod ond nawr mae’r gofalwyr yn cyrraedd a’i chael wedi gwisgo yn barod” (P)*

*“Roedd yna fam a drefnodd ofal ysbaid ar gyfer ei merch … roedd y teulu wedi ymlacio a threulio’r cyfnod ysbaid o gwmpas anifeiliaid yn enwedig ceffylau … felly tyfodd y syniad hwn sef cael cyfnod ysbaid ystyrlon a hyfryd sydd ddim, o angenrheidrwydd, yn golygu mynd i ganolfan ddydd unwaith yr wythnos … dydy hynny wrth gwrs ddim yn golygu nad yw'n gweithio i rai, ond mae’n ymwneud â’r math hwnnw o reolaeth a hyblygrwydd i bobl. Felly, mae hynny’n gofyn i awdurdod lleol, y trydydd sector, y bobl eu hunain ddod at ei gilydd er mwyn i hyn lwyddo, sydd eto'n enghraifft hyfryd o bobl yn meddwl yn greadigol a bod cymorth ar gael i bobl allu gwneud hynny a bod gan bawb lais yn y modd i’w weithredu … Mae hynny’n rhywbeth sydd wedi agor drysau i bobl eraill i ddod i mewn a gallu cyrchu hyn … bron yn fath o ‘dyddyn bach” (UC)*

*Anghysondeb rhwng sectorau a mannau*

3.13 Un canfyddiad allweddol oedd bod cyd-gynhyrchu yn golygu rhywbeth gwahanol yn **y trydydd sector a’r sector statudol**. Mae hanesion defnyddwyr gwasanaethau yn awgrymu bod y trydydd sector ymhell ar y blaen i'r sector statudol.

*“Mae un o’r grwpiau eraill [awdurdod lleol arbennig] yn iawn… maen nhw’n ymgydaddasu’n dda iawn ac mae gan y cadeirydd anabledd dysgu … mae’n arwain, mae’n dda am wneud hynny ond nid yw hynny’n dod o [awdurdod lleol arbennig] mae’n dod o’r CVS [Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol].” (LD)*

*“Mae [sefydliadau] megis [enw’r sefydliad cenedlaethol]…yn newid eu dull o weithio… mae’n fwy cydweithrediadol, yn cynorthwyo pobl ddal a’r rhai â nam ar*

*eu golwg yn fwy yn y sefydliad a gweithio gyda nhw ar y cymorth y gallan nhw ei gynnig yn hytrach na … gwneud pethau i bobl, felly dw i'n credu bod fy marn yn bendant yn newid drwy'r trydydd sector … maen nhw'n gwrando mwy ar yr hyn y mae pobl ei eisiau." (BVIP)*

*"Mae ein haelodaeth yn cynnwys pobl o grwpiau'r sector gwirfoddol, pobl â phrofiad a gofalwyr… sefydliad yn seiliedig ar aelodaeth gyda phobl wedi'u hethol i'r pwyllgor … Ar gyfer ein holl brosiectau, mae gennym grwpiau ymgynghorol yn cynnwys rhanddeiliaid … weithiau mae'n gweithio'n well nag eraill, ond mae yn bod." (MH - ymarferydd)*

*"Mae gen i 20 mlynedd o brofiad fel defnyddiwr gwasanaeth. Mae [enw sefydliad arbennig yn y 3ydd sector] yn grymuso pobl … caiff pobl eu hannog i ddatblygu sgiliau, golygu fideos… [mae'n nhw'n] cael cynnig llwyfan a'r grym i wneud pethau y maen nhw eisiau … dydy eu hymglymiad ddim hyn rhagnodol ....mae'n gyd-gynhyrchu gwirioneddol. Nid 'gadewch i ni wybod beth ydych chi'n feddwl … rydyn ni'n gwerthfawrogi'ch barn' … mae'n 'Dyma'n fras yr hyn yr ydyn ni'n ei wybod a dyma'n man cychwyn - gadewch i ni ei adeiladu gyda'n gilydd'… Dyma sail llawer o'r gwaith yn y 3ydd sector am beth amser" (MH)*

3.14 O'i gymharu, nododd defnyddwyr gwasanaeth bod **y sector statudol** yn aml yn symud yn arafach a llai effeithiol o ran rhoi cyd-gynhyrchu ar waith – a doedd hi ddim yn glir iddyn nhw sut i wneud pobl yn atebol am hyn.

*"Dw i'n cofio'r tro cyntaf i mi ffonio'r awdurdod lleol ar gyfer Taliadau Uniongyrchol ac roedd fel tae ganddyn nhw dîm … a'u gwaith oedd cael gwared arnoch chi. Nid i'ch cynorthwyo na'ch symud ymlaen at yr hyn sydd ei angen arnoch chi i … na , dydy pawb ddim yn cael eu trin hyn yr un modd, fel y dylai fod" (BVIP)*

*"Mae gweithio gyda nhw [pobl yn yr ALl] yn frwydr yn aml – ddylia hi ddim bod fel 'na, wyddoch chi." (PPI)*

*"Ddylai ddim rhaid i ni, ond mae rhaid i ni frwydro. Oes. A ddylai ddim rhaid i ni." (UC)*

*"Un o'n problemau, er mawr sioc i ni, ydy ei bod yn ymddangos, pan fyddwn ni'n cwyno hyd yn oed am hyn [diffyg cyd-gynhyrchu] a chyfeirio at y Ddeddf, mai eu ' ffordd nhw [gwasanaethau cymdeithasol] o wneud pethau neu ddim' ydy, hi - maen nhw'n dweud "Dydyn ni ddim yn ei wneud e, dydyn ni ddim hyn ei wneud e", heb allu troi atyn nhw am help – felly dyna un o'n brwydrau - hyd yn oed wrth eu herio, mae'n ymddangos nad oes ganddon ni unrhyw rym i herio dim byd sy'n digwydd." (LD)*

3.15 Er bod **symud tuag at gynllunio rhanbarthol o ran polisi** yn addo dod â gwneud penderfyniadau yn nes at **grwpiau cymunedol llai** ac annog rhyngweithio rhwng **rhanddeiliaid unigol** ar lefel leol, awgrymai sylwadau cyfranogwyr nad dyma'r effeithiau gafwyd, o anghenraid. Efallai nad ydy Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn chwalu rhwystrau rhag cyd-gynhyrchu cymaint ag y gobeithiwyd.

*"Llwyddon ni…sefydliad cymunedol bach – yn y diwedd i gael lle ar y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol nôl yn yr hydref ar ôl misoedd a misoedd a chael ein cadw allan dro ar ôl tro … es yno gyda un o fy ninasyddion … aeth yn dda. Rhedodd un o bobl maes iechyd ar ein hôl i gael ein manylion cyswllt, ond roedd yn dal fel i deimlo fel "O, mae honna'n stori dda, diolch. Hwyl fawr" ac maen nhw'n cario ymlaen fel o'r blaen, doed a ddelo" (P)*

*"Ac mae hefyd yn eitha ynysol oherwydd maen nhw [y gweithwyr proffesiynol] i gyd yn cydweithio ac yn datblygu cysylltiadau ac yn gallu siarad â'i gilydd yn rheolaidd tu allan i gyfarfodydd, tra os ydyn ni [gofalwyr di-dâl] am siarad â'n gilydd, rhaid i ni wneud hynny yn ein hamser ein hunain a threfnu cyfarfodydd yn ein hamser ein hunan mewn caffis neu ble bynnag. Dyma sy'n digwydd i gynrychiolwyr ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - rhaid i ni fynd i ffwrdd a sortio ein hunain allan. Does dim cyfleuster i ni gwrdd a sgwrsio – dim trafodaeth ger yr 'oerydd dŵr' neu beth bynnag" (UC)*

*Swyddogaeth grym a dylanwad*

3.16 O fewn sefydliadau statudol, mae **anghydbwyseddau grym a hierarchaethau**, a allai lesteirio pawb perthnasol rhag gallu mynegi'r hyn maen nhw'n meddwl a gwrando ar ei gilydd. Gall hyn fod ar ffurf synnwyr, ymhlith y rhai sydd yn frwd dros hybu cyd-gynhyrchu, o ddiffyg caniatâd y bobl uwch eu swyddi i gynnig yr adnoddau gofynnol i wneud hynny.

*"[Mae yna] anghydbwysedd grym … yn enwedig o fewn y system iechyd meddwl. Felly meddygon a seiciatryddion sydd â'r grym – rydyn ni'n gwneud ein gorau i rannu'r grym hwnnw … a chydweithio, ond maen nhw'n dal i dynnu nôl.*

*"Mae'n drist iawn ond mae ganddyn nhw … fwrdd lluniau… o'r holl bobl sy'n gweithio ar y Ward. Ar dop y bwrdd mae'r seiciatrydd ar waelod y bwrdd mae'r glanhawr. Rydw i [fel mentor cymheiriaid] yn dod jyst cyn y glanhawyr ac ar ôl y technegwyr Therapi Galwedigaethol". (MH)*

*"Dw i'n meddwl bod problemau'n dueddol o godi gyda'r haen ganol, y rheolwyr canol gweithredol sy'n fodlon ond angen rhagor o hyfforddiant ar fuddion cyd-gynhyrchu a'r modd y mae angen newid systemau i alluogi hyn i ddigwydd yn briodol" (P)*

3.17 Ceir enghreifftiau mewn rhai mannau o **ymglymiad ystyrlon defnyddwyr gwasanaeth,** er enghraifft, wrth recriwtio ymarferwyr a gwerthuso ac ail-gynllunio gwasanaethau yn fewnol. Lle mae hyn wedi digwydd, teimlai defnyddwyr gwasanaeth eu bod wedi cael gwir ddylanwad.

*"Bu ymglymiad yn y broses recriwtio a recriwtio gwahanol bobl i swyddi, boed yn seiciatryddion cyswllt, uwch nyrsys ayb.… yn brofiad positif iawn – yn newid o fod yn bresennol yn yr ystafell yn unig, yn barod, a chael gofyn cwestiynau set, i gael ychydig mwy o ryddid i drafod a chael fy nhrin yn gydradd." (MH)*

*"Fe y wnes i wir fwynhau cymryd rhan mewn 15 cam, oedd yn rhywbeth a wnaethon ni hefyd pan fydden ni'n cael mynd o gwmpas rhai o'r wardiau lleol, y rhai diogelwch isel … ac ystyried yr effaith ar unigolyn oedd yn mynd i mewn am y tro cyntaf ar …. yr holl bethau sy'n gwneud i chi beidio bod eisiau gorfod cerdded drwy'r drysau hynny neu sut mae'n effeithio ar eich profiad – yn weledol, o ran arogl [ayb]… chi'n gwybod, yr holl bethau yr ydych chi'n cerdded i mewn iddyn nhw. Felly, roedd hynny yn brosiect gwych … i allu bod yn rhan ohono a derbyniodd (rheolwyr gwasanaethau) hynny … mae sgwrs go wir yn digwydd ac mae'n gweithio." (MH)*

### Cyfranogiad

3.18 Mae'r adran hon yn trafod cyfranogiad mewn cyd-gynhyrchu o ran unigolion ac ar lefel gwasanaeth. Mae hyn yn cyfeirio at gynnwys yn y broses o gynllunio a chyflenwi gwasanaeth y rhai hynny na fyddai, fel arfer, yn cyfrannu at sut mae'r gwasanaethau yn cael eu llunio, a hefyd at ansawdd y rhyngweithio rhwng defnyddwyr gwasanaeth a darparwyr gwasanaeth, yn enwedig os bydd y rhain yn meithrin cydymwybyddiaeth a budd cilyddol.

*"Rhannwyd enghraifft hyfryd o gyd-gynhyrchu gan un o'n gweithwyr gofal cartref pan rannodd hi'r 'funud hudolus' mewn gweithdy ym Mhorthmadog: Mae un o'n defnyddwyr gwasanaeth wrth ei bodd yn croesbwytho ac mae ei waliau yn llawn o'r sampleri mae wedi'u gweithio. Un diwrnod es i'w gweld a sylweddolais bod fy nhabard yn datod. Gofynnais iddi gael benthyg nodwydd ac edefyn a dywedodd, "Rhowch e i mi a fe wna i ei drwsio fo i chi". Gwnaeth jobyn da ac roedd yn amlwg wrth ei bodd yn gwneud hyn i mi. Yna, gofynnodd a oedd fy*

*nghydweithwyr angen trwsio unrhyw beth. Erbyn hyn, rydyn ni'n chwlio am bethau iddi allu eu trwsio" (P)*

3.19 Mae cyd-gynhyrchu ar lefel unigolyn fel hyn yn mynd tu hwnt i lais a rheolaeth. Mae'n berthynol ac yn ddwyochrog ac yn symud i ffwrdd o drafod gofal unochrog. Yn aml ni chaiff hyn unrhyw sylw neu mae'n aros yn gudd pan fydd gweithwyr gofal yn teimlo bod rhaid iddyn nhw ddilyn neu ddweud eu bod wedi dilyn y tasgau a ragnodwyd mewn cynllun gofal a chymorth, yn hytrach nag ymateb yn gyd-gynhyrchiol i anghenion a chyfleoedd y foment. Dylai ethos cyd-gynhyrchu fod yn llinyn euraidd sy'n rhedeg o lefel yr unigolyn i lefel gwasanaeth.

3.20 Cysylltir cyfranogiad ar lefel yr unigolyn a lefel gwasanaeth yn bwysig â'r angen i werthfawrogi dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn gydradd, a dyfynnodd Llywodraeth Cymru hyn fel rhagofyniad cyd-gynhyrchu (gweler 1.10 uchod). Y rheswm am hyn ydy oherwydd bod cyfranogiad yn rhannol yn ymwneud â 'bod yno' wrth i wasanaethau ddatblygu, ond mae hefyd yn ymwneud â chyfrannu i'w datblygiad yn gydradd ag eraill drwy arferion perthynol, ymatebol a chilyddol. Felly, mae rôl cyfranogiad a'r amodau yn hanfodol i gyd-gynhyrchu, ac yn ddiffiniad o'r hyn sy'n gwneud y dull o fynd ati yn wahanol i ddulliau eraill, fel proses ac o ran ei ganlyniadau potensial. Bydd graddfa cyfranogiad yn amrywio o ran y nifer o bobl sydd ynghlwm. Ond, i broses gael ei hystyried yn gyd-gynhyrchiad, dylai cyfranogiad fod yn nodwedd drwyddi draw:

*I ba raddau ac ym mha ffyrdd mae defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr di-dâl wedi ymglymu a'u grymuso fel partneriaeth yng nghynllun a gweithrediad gwasanaethau?*

*Gwerth cyfranogiad ar gyfer defnyddiwr gwasanaeth*

**3.21** Cawsom fod rôl cyfranogwr llawn yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan ddefnyddwyr gwasanaeth a hefyd yn dra ymwybodol o bwysigrwydd *pwy* sy'n cael eu gwahodd i gymryd rhan. Mae gwerth mewn 'bod yno' – a chael eu gweld yno.

*"Cael pobl yn gorfforol bresennol a chael eu gweld yn bresennol yn y gymuned ydy'r modd i chi newid canfyddiadau negyddol." (P)*

*"Ni ddylai [cyd-gynhyrchu] fod yn ddigwyddiad, dylai fod wedi'i ymgorffori yn yr holl broses a chamddeellir hynny … dydy e ddim ym ymwneud â chael pobl i mewn, gwrando ar eu straeon diflas, syrffedus ac yna ffiltro hynny er mwyn i ni gael rhywbeth ar y diwedd i ddangos ein bod wedi gwrando – nid cyd-gynhyrchu mo hynny." (UC)*

*"Mae rhai o'r digwyddiadau yr ydw i wedi bod yn rhan ohonyn nhw wedi bod yn wirioneddol ryfeddol ac wedi gweithio'n dda ar y pryd, ond dydw i ddim, o anghenraid, yn teimlo mai'r bobl briodol sy'n mynychu'r grwpiau hynny … mae angen y dyn sydd newydd ddod allan o'r carchar; rhaid i chi ddod o hyd i'r dyn sy'n chwalu ffenestru oherwydd ei fod yn grac …mae [cyd-gynhyrchu] yn llawer mwy na phawb yn cytuno, er mwyn i chi allu llunio adroddiad neis amdano." (PPI)*

*"Dw i'n meddwl ei bod yn wirioneddol bwysig bod defnyddwyr gwasanaeth yn teimlo eu bod yn cael eu cynnwys yn eu gofal eu hunain – yn yr holl broses, nid dim ond cael gweithwyr proffesiynol yn pregethu gan ddweud wrthyn nhw "Chi'n gwybod, rydyn ni'n meddwl y dylech chi wneud hyn a'r llall – bydd hynny yn gwneud i chi deimlo'n well". Ac, yn sicr, o fy mhrofiad fy hun, dw i wedi cael y ffaith mod wedi cael lleisio barn yn fy ngofal fy hun yn dda iawn, iawn, ac yn anogol iawn." (MH)*

*Rhinweddau cyfranogi*

3.22 Cawsom fod gwerth cyfranogi a'r hyn sy'n gwneud iddo weithio'n dda yn aml yn cael ei fynegi yn nhermau **egwyddorion a rhinweddau**, megis **parch** a **chynhwysiad** a **gwrando'n dda**.

*"Roedd [cyd-gynhyrchu un i un] yn brofiad positif iawn gan mod i'n credu bod rhywun yn gwrando arna i … ac yna, cael galwadau ffôn i wirio bod y sesiynau wedi mynd yn iawn a mod i'n hapus … ac yna a oedd gen i gwestiynau neu broblemau ac unrhyw beth personol iawn a theimlais bod pobl wedi gwrando arna i" (BVIP)*

*"Sylwais eu bod nhw [ymarferwyr] yn fy nhrin gyda pharch a dealltwriaeth … a gwahoddiad gofalus i gyfranogi." (MH)*

*"Mae pobl [y sefydliad trydydd sector] yn dweud "Beth ydych chi eisiau?" yn hytrach na "Dyma beth ydych chi'n ei gael." (PICS)*

*"Gwnaeth i mi deimlo'n dda, yn werth chweil, o'r diwedd a bod rhywun yn gwrando ar fy llais." (MH)*

*"Y peth arall rhyfeddol am gyd-gynhyrchu oedd bod pobl yn gwerthfawrogi fy marn, yn cael ei groesawu yn hytrach na'i ystyried yn feirniadaeth." (MH)*

*"Roedden nhw [y bobl a dderbyniai cymorth gan y gwasanaethau] wir yn gwerthfawrogi rhywun sy'n rhoi o'u hamser iddyn nhw. Maen nhw'n teimlo'n ddilys, bod pobl yn gwrando arnyn nhw, ac yn cael eu gweld, maen nhw'n teimlo bod eu profiadau a'u pryderon o werth a dyna dw i'n credu sydd angen ei wneud a chyd-gynhyrchu dw i'n sicr ydy'r ffordd i wneud hynny." (MH)*

*“[Mae gen i brofiad positif] o ddiogelu fy hun rhag COVID-19. Mae nifer o elfennau … [ond] yn y bôn, yr agwedd yw e … y modd y rhyngweithiodd yr unigolyn [o’r ALl] gyda fi mewn ffordd gyd-gynhyrchiol...dydyn nhw ddim yn gofyn cwestiynau oddi ar ddarn o bapur … maen nhw’n siarad mewn modd sy’n fy nhynnu i mewn i’r sgwrs.” (PPI)*

*“Os oes gen i rywbeth i’w ddweud neu i’w rannu, [mewn sefydliad trydydd sector] dw i’n teimlo bod fy llais yn cael ei glywed – bod pobl yn gwrando arna i heb farnu. Fel arfer rydych yn teimlo eich bod yn cael eich barnu.” (PICS)*

*“Does dim rhaid i chi gytuno, ond rydych chi cael eich parchu a hefyd yn rhannu’r un targedau ... pan fyddai prosiectau yn methu yn y gorffennol, o ran cyd-gynhyrchu, roedd hynny oherwydd bod gennych ddau agenda gwahanol sy’n gwrthdynnu.” (MH)*

*Costau (diffyg) cyfranogiad*

3.23 Dywedir bod defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr sydd yn ymwneud â chyd-gynhyrchu yn **emosiynol daer.** Mae angen cymorth emosiynol yn ogystal â chymorth ymarferol ar gyfranogwyr.

*“Oherwydd mae gennych unigolyn sydd â phrofiad o fyw y peth, yn trafod y peth yn emosiynol. Mae wir yn effeithio ar eu bywyd” (P)*

*“Rydych yn brwydro… ac yn teimlo fel dieithryn. Mae gen i ddiddordeb mawr yn hyn o beth. Rhaid i mi aros yn fyw ar gyfer y mab” (UC)*

3.24 Yn yr un modd, mynegwyd **diffyg** cyfranogiad yn nhermau teimlo **ar gyrion pethau**, **yn cael eich gwahaniaethu,** neu yn cael eich **trin** yn hytrach na chael eich parchu.

*“Dydw i ddim yn anffodus, wedi cael dim [profiadau da o gyd-gynhyrchu]. Roeddwn yn ofalwr i fy nhad ac roedd fy mhrofiad yn un negyddol… Byddai’r gweithwyr proffesiynol hyn yn troi i siarad â fy nhad - oherwydd mod i’n fyddar, bydden nhw’n siarad â fy nhad ac yn fy anwybyddu, er mai fi oedd ei berthynas agosaf. Sylweddolais fod yn well gan y gweithwyr proffesiynol eu hunain siarad â phobl sy’n gallu clywed, a gwnaeth hynny i fi deimlo’n ddinod. Doeddwn i ddim yn bwysig yn ei ofal.” (DHIP)*

*“Yr unig beth wnaeth hi oedd ysgrifennu popeth i lawr am y modd yr oedd hi am ei gyflwyno, nid sut roeddwn wedi dweud pethau mewn gwirionedd.” (PICS)*

*“[mewn cyfarfodydd] Fi oedd y person olaf a wahoddwyd i siarad … Nododd pawb eu pwyntiau … ac yn o flaen pawb, dywedodd hi [cadeirydd y cyfarfod]... ‘mae C [fi] yn bipolar’. Dwedais i’ ‘beth?!’” (PICS)*

*“Does dim trafod – mae’n fater o ’Dyma ddisgwyliwn ni gennych chi’. Maen nhw’n dod i mewn i’ch cartref. Mae ganddyn nhw lyfr o ganllawiau i’w dilyn”. (PICS)*

*Ffactorau sy’n allweddol i’r modd yn mae cyfranogi yn datblygu.*

3.25 Sylweddololodd nifer o'n cyfranogwyr rôl hanfodol **gwybodaeth** yn nhermau'r modd yn mae cyfranogi yn digwydd a’r gwerth sy’n deillio o hynny. Mae’r wybodaeth hon yn cynnwys profiad o fyw a dealltwriaeth o’ch hawliau.

*"Waw, pa mor lwcus ydyn ni bod ganddon ni’r holl bobl yma i roi’r holl wybodaeth hon i ni”. (MH)*

*“Yr hyn sy’n eich gwneud yn arbenigwyr [mewn gwasanaethau iechyd meddwl] – ydy eich profiad o fyw gyda iechyd meddwl [yr union beth sy’n eich gwneud i deimlo'n annigonol] ' a … dydy sut deimlad ydy bod mewn lle anodd ddim yn rhywbeth y gallwch ei ddysgu drwy astudio” (MH)*

*“Fe wnes i gwrs cyd-gynhyrchu ac mae hynny wedi rhoi gwybodaeth i mi… Mae wedi fy helpu i wybod am fy hawliau, fwy neu lai. Fe helpodd fi, felly pan ddaw’r gweithiwr cymdeithasol i’m tŷ a dweud 'o na dydyn ni ddim yn gwneud hynny' ac mi ddwedais i, 'wel, a dweud y gwir', a dyna’r wybodaeth ac eto … dod â phobl at ei gilydd, oherwydd yr actifyddion anabledd yr ydw i’n gweithio gyda nhw erbyn hyn ydy llawer o bobl oedd ar y cwrs gyda fi.” (UC)*

*Gallai unigolion – efallai gofalwyr yn arbennig, a’r rhai yn y sefyllfaoedd mwyaf agored i niwed – gael eu hymglymu’n wahanol yn ôl pa mor dda maen nhw’n gwybod eu hawliau. Mae gwybod eich hawliau yn eich rhoi mewn sefyllfa gryfach i gyd-gynhyrchu ar lefel yr unigolyn a lefel y gwasanaeth.*

*“Unwaith mae’r awdurdod lleol neu’r bwrdd iechyd yn gwybod eich bod yn deall eich hawliau … mae’n gwneud gwahaniaeth.” (UC)*

*“Heblaw bod gennych rhywun i frwydro drosoch … y rhai sydd fwyaf angen y cymorth ydy’r rhai na all ymdopi â hynny” (BVIP – ymarferydd)*

*“Dydyn nhw ddim yn brwydro dros eu hawliau a dydyn nhw ddim yn herio unrhyw beth ac yna bydd rhywun yn dweud “Na” wrthyn nhw ac maen nhw'n gadael i hynny ddigwydd” (BVIP)*

*“Mae’r berthynas y maen nhw [gofalwyr anwybodus] yn ei ffurfio gyda gweithiwr cymdeithasol yn wahanol oherwydd bod y gweithwyr cymdeithasol yn gwybod nad ydy’r gofalwyr yn gwybod yr hyn ddylen nhw fod yn ei dderbyn ac yn eu trin*

*yn wahanol. Dyna'r math o beth dwi'n clywed amdano gan ofalwyr sydd ddim yn gwybod [eu hawliau] ond pan fyddwch chi'n deall, ceir cyd-barch ac yna rydych yn gwybod eich bod yn fwy tebygol o allu cyd-gynhyrchu yn ystyrlon, ond os nad ydych yn gwybod eich hawliau a ddim yn deall yr hyn ddylai ddigwydd, dw i'n meddwl bod hynny'n sefyllfa ychydig yn wahanol." (UC)*

3.26 Gall rôl **teuluoedd** wneud cymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu yn fwy cymhleth. Ar un llaw, cafwyd enghreifftiau o aelodau teulu yn cymryd arnyn i siarad ar ran defnyddwyr gwasanaeth. Ar y llaw arall, disgrifiodd rhai o ofalwyr teuluol, eu bod yn teimlo'n israddol yn y broses o gyd-gynhyrchu, os ydyn nhw wedi'u hymglymu o gwbl.

*"Mae'n broblem os ydy'r teulu yn rhan o'r cyd-gynhyrchu oherwydd byddan nhw'n siarad ar ran pobl fyddar sydd ddim o angenrheidrwydd yn beth da." (DHIP)*

*"Dw i'n meddwl ei bod yn anodd – mae'n ychwanegu haen arall o gymhlethdod i'r hyn sydd eisoes yn gymhleth … mae'r drafferth yn codi pan fydd y teulu yn penderfynu beth fydd orau … er lles y teulu … a gall hynny fod yn wahanol i farn y person [sy'n derbyn gofal] ac mae hynny'n sefyllfa gymhleth iawn i ddelio â hi" (UC)*

*"Ond yn aml, ni ystyrir bod gofalwyr o anghenraid yn rhan o gyd-gynhyrchu ac mae hynny yn sialens ddiddorol. Mae bron fel hierarchaeth o bwy sy'n cyd-gynhyrchu gyntaf, sydd, i mi, ychydig yn rhyfedd oherwydd holl bwynt cyd-gynhyrchu ydy nad oes unrhyw hierarchaeth" (P)*

*"Wnân nhw ddim siarad â fi, ei fam, oherwydd cyfrinachedd. Dw i'n gofalu am fy mab ond tra roedd yn derbyn triniaeth [ar gyfer iechyd meddwl] maen nhw'n fy nghadw fi hyd braich" (UC)*

3.27 Nododd eraill bod **Rhywedd** yn ffactor sy'n dylanwadu ar ddeinameg cyd-gynhyrchu.

*"Ron i'n meddwl bod gwahaniaethu ac anghysondeb o ran perthynas yn dal i fodoli - nid rhwng y gweithiwr proffesiynol a defnyddiwr y gwasanaeth mewn gwirionedd [ond ] ar sail rhywedd … am y cydraddoldeb. Felly, os ydych yn ddyn neu'n fenyw bydd eich profiadau yn hollol wahanol …dyna a wnaeth i mi gynhyrfu." (MH)*

3.28 Atgyfnerthwyd cyfranogiad, yn enwedig ar gyfer pobl heb hyder drwy eiriolaeth gweithwyr proffesiynol a chymheiriaid (gweler 3.38). I rai cyfranogwyr, cafwyd gwerthfawrogiad o rôl **eiriolwyr a gweithwyr cymorth**:

*“[Mewn un cyfarfod cynllunio arbennig mae] unigolyn enwebedig sydd ag anabledd dysgu, sy'n briodol, - dyna hoffwn i - ond dydw i ddim yn cael siarad … Yno i gynorthwyo ydw i, ond weithiau dw i yn siarad … Dw i ond yn dweud 'Na, dydy hyn ddim yn ddigon da‘…. Fodd bynnag, os na fydd e yn gallu mynychu, dydw i ddim fod i fynychu ac eto, ar gyfer pobl hŷn, menyw ifanc yn ei 30au sy’n cynrychioli …. Maen nhw’n derbyn hynny ac, i mi, mae hynny’n ymddangos yn annheg,.” (LD – ymarferydd)*

*“Fe wnaethon ni sôn am yr eiriolaeth heb gyfarwyddyd a doedd neb [yn y cyfarfod] wedi clywed am hyn. Roedd fel petai rhyw siffrwd yn treiddio drwy’r ystafell” (UC)*

*“Dim ond y rhai sydd eisoes yn deall neu’n gallu dod o hyd o rywun fel eiriolwr neu’n gwybod am rywun sy’n gwneud y gwaith a all gyd-gynhyrchu mewn gwirionedd. Os ydych ar goll, rydych ar eich pen eich hun, ac yn cael eich trin.” (LD – ymarferydd)*

3.29 Os na wireddwyd addewid cyd-gynhyrchu, cafwyd syniad o **docynistiaeth** ac o sefydliadau perthnasol yn siarad llawer ond gwneud dim. Cyfrannodd hyn at y syniad nad ydy'r cyfranogiad ddim bob amser mor gyflawn – neu nad ydy’r gwahoddiad i gyfranogi ddim mor ddilys – ag y gallai fod.

*“Gall llawer ohonon ni weld drwyddo yn syth, rydyn ni’n gwybod os mai tocynistiaeth ydy e – rydyn ni'n gwybod yn syth. Pan fydd 15 ohonoch chi ac 1 ohonon ni – rydyn ni’n gwybod.” (PWD)*

*“Am nifer o flynyddoedd, roedd grŵp o dan ein Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyn i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol gael ei ffurfio fel rhan o'r Ddeddf … Fel nifer o'r grwpiau hyn oedd yn glwstwr o uwch reolwyr … roedd rhywun ar ryw adeg wedi dweud 'O, rhaid i ni gael defnyddiwr gwasanaeth ar y Bwrdd’. Felly, roedd y grŵp hwn yn cynnwys tri unigolyn eithriadol o abl ac mewn dau achos pobl oedd yn eithriadol o barod i gydymffurfio oedd yn eistedd yno mewn cyfarfodydd eithriadol o ddiflas, a dreuliodd llawer o flynyddoedd – a dwi ddim yn gor-ddweud … yn penderfynu ar y fformat.” (LD – ymarferydd)*

*“Roedd yn ymddangos yn fwy o ymarfer ticio blychau … ar ddiwedd y chwe wythnos hynny, rydyn ni wedi dangos hyn a'r llall iddyn nhw ac felly mae hynny'n iawn.” (BVIP)*

*“Dw i’n meddwl mai’r profiad mwyaf negyddol a welais hyd yma … ydy lle mae [awdurdod lleol] yn siarad am hunan-eiriolaeth, ond mae yna grŵp [hunan-*

*eiriolaeth] sy'n colli eu cyllid... yn y bôn, mae pethau'n cael eu gorfodi ar bobl o'r hyn a wn i." (LD – ymarferydd)*

*"Yna yn 2016 ... daeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym … roedd hyn yn golygu rhagor o gyfarfodydd. Roedden ni'n yfed gwydraid o win a bwyta bwyd neis a dywedon nhw "Chi'n gwybod bydd yn cymryd o leiaf dwy flynedd cyn i hyn weithio" a nawr dw i'n teimlo mod i wedi cael fy siomi oherwydd nad yw'n ymddangos bod fy holl waith caled a fy muddsoddiad wedi newid dim – felly rydwi'n yn teimlo'n sinigaidd am gyd-gynhyrchu." (PPI)*

*"Maddeuwch yr iaith ond… mae [cyd-gynhyrchu] yn debyg i gynllunio person-ganolog i mi, gellir ei 'fastardeiddio' yn hawdd … ac os na all pobl ei gyflenwi, gelir ei ddefnyddio fel adnodd marchnata yn union fel cynllunio person-ganolog... dull da o farchnata eich gwasanaeth ond dydych chi ddim yn ei gyflenwi mewn gwirionedd." (LD – ymarferydd)*

3.30 Mae cyd-gynhyrchu yn haws mewn gwasanaethau sy'n seiliedig ar y **model cymdeithasol yn hytrach na'r model meddygol**, yn enwedig, ym marn cyfranogwyr, ar gyfer y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl.

*"Lle i weithio mewn modd gwahanol iawn tu allan i'r model meddygol" (MH – ymarferydd)*

*"Ystyrir mai partneriaid iau ydy'r awdurdod lleol … mae cadw hunaniaeth ALl yn anodd a gweithredu a chadw'r gwerthoedd cymdeithasol hynny yn anodd … mae'r arian ym maes iechyd. Mae gwasanaethau cymdeithasol yn rhannu ein [trydydd sector] gwerthoedd, ond maes iechyd sy'n rheoli cyd-gynllunio" (MH – ymarferydd)*

*"Mae [cyd-gynhyrchu] ychydig yn anodd oherwydd bod ganddon ni yng Nghymru ddiffyg cydbwysedd grym o ran gofal dementia. Y model meddygol sy'n tra-arglwyddiaethu ac ni ddylai hynny fod. Dw i wedi dweud wrth bobl nad ydw i'n deall pam ei fod yna [dan y gwasanaethau iechyd meddwl]. Rydw i'n deall pam ei fod yno, gan nad oedd neb arall ei eisiau yn y gorffennol." (PWD)*

*Canolrwydd proses*

3.31 Pan fydd cyd-gynhyrchu yn gweithio'n dda, disgrifiodd cyfranogwyr y syniad bod rhywbeth **unigryw werthfawr** wedi digwydd yn y **broses** yn ogystal â **chanlyniadau**, yn enwedig ar gyfer pobl sydd yn aml ar y cyrion neu wedi cael eu pardduo neu eu difrïo.

*"Mae 30 ohonon ni yn yr ystafell – gofalwyr di-dâl, defnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr cymdeithasol, rheolwyr, comisiynwyr, swyddogion cynllunio - pob un*

*ohonon ni yn yr ystafell ... a phan rydyn ni i gyd yn eistedd yna gallwch weld bod rhai pobl yn ddrwg eu hwyliau ac yn edrych ar eu watsys a meddwl "Pam mod i yma?" ... ac yn sydyn, rydych chi'n sylweddoli bod pawb yn gweithio i'r un perwyl. Felly, mae safbwynt pawb yn wahanol, ond mewn gwirionedd, rydych yn sylweddoli mai'r un nod sydd gan bawb; pawb eisiau gwasanaeth da. Mae'r geiniog yn disgyn. Felly, mae hynny'n werthfawr iawn". (UC)*

*"[Wrth] rannu ein straeon gwahanol ... cewch yr emosiwn a'r teimladau hynny. Mae bod yno gyda'n gilydd, rydych chi gallu gwrando a chael yr ymglymiad a'r newid." (MH)*

*"Rydyn ni'n lleihau'r pellter rhyngddon ni." (MH)*

*"Mae [sefydliad yn y trydydd sector] wedi fy nghynorthwyo mewn ffyrdd na fyddwn ni byth wedi dychmygu … yn ffocysu arna i a'r hyn dw i ei angen … maen nhw'n gwneud i chi sylweddoli ei fod yn iawn i chi fod yn chi eich hun – maen nhw'n gwneud i chi deimlo eich bod yn unigolyn, yn hytrach nag achos … menyw gref ydych chi" (PICS)*

*"Yr hyn dw i'n wirionedd hoffi amdano ... i fi fel defnyddiwr wasanaeth yn y rôl hon ... ydy ei fod yn rhoi gwerth i fy holl brofiadau negyddol ac mae hynny yn ei gwneud hi'n haws i'w oddef a theimlo y gallwn i wneud rhywbeth da gyda hyn" (MH)*

**Ffactorau galluogi (analluogi)**

*Lle bu cyd-gynhyrchu yn llwyddiannus, pa amodau neu ffactorau sydd wedi helpu hyn i ddigwydd? Os na wireddwyd hyn fel y gobeithiwyd, pa amodau neu ffactorau a allai fod wedi llesteirio hyn?*

3.32 Nodwyd bod ystod o ffactorau wedi effeithio ar effeithio gyd-gynhyrchu. Mae newid meddylfryd sefydliad yn allweddol gyda phwyslais ar ddatblygu cysylltiadau ymddiriedus a iaith gyffredin. Mae hyn yn gofyn am arweinyddiaeth rymus, parhad mewn staffio a hyfforddiant priodol er mwyn galluogi cyd-greadigrwydd ar draws pob lefel o fewn sefydliad neu bartneriaeth – o'r gwaelod i'r brig ac o'r top i'r gwaelod. Hefyd, mae gofyn am gymorth ymarferol i hwyluso cyfranogiad a chyd-gynhyrchu ynghyd â darparu adborth cyson a pherthnasol. Mae hyn i gyd yn cymryd amser.

3.33 Nodwyd nifer o ffactorau a fyddai'n effeithio ar gyd-gynhyrchu sy'n cynnwys: meddylfryd y sefydliadau perthnasol a'r angen i newid meddylfryd i gynorthwyo cyd-gynhyrchu; cysylltiadau ac adeiladu ymddiriedaeth; y defnydd o iaith a chyfathrebu; rôl arweinwyr i gynnig cymorth; graddfa'r cyd-gynhyrchu; y staff sy'n cymryd rhan a'r

hyfforddiant roedden nhw wedi'i dderbyn; yr adborth a ddarparwyd ar gyfer cyfranogwyr; argaeledd eiriolaeth berthnasol; yr amser a'r adnoddau ar gael ar gyfer cyd-gynhyrchu a'r cymorth ehangach ar gael i'w hwyluso.

*Newid meddylfryd*

3.34 Dro ar ôl tro, ar draws pob sgwrs, nododd ein cyfranogwyr bwysigrwydd **newid meddylfryd sefydliad** wrth roi'r Ddeddf ar waith. Fel arfer wrth wneud hyn, nodon nhw nad oedd hinsoddau gweithio ymhlith sefydliadau perthnasol wedi newid cymaint ag y gobeithiwyd – felly, er enghraifft, doedd gofynion biwrocrataidd ddim yn ffafriol i ddull cyd-gynhyrchiol o weithio nac yn gydnaws. Ystyriwyd bod gormod o fiwrocratiaeth yn rhwystr rhag parhau i ymglymu, gan fethu â sylweddoli bod hyn yn gosod mwy o faich ar y rhai heb fod yn ymarferwyr nag ar y rhai oedd yn arfer gweithio yn y dull hwnnw. Ond, weithiau, newid sylweddol yn y feddylfryd oedd wrth wraidd llwyddiannau.

> *"Dw i'n meddwl weithiau, y bydd hi'n cymryd amser hir i newid … rydyn ni'n newid meddylfryd a bydd yn cymryd amser hir i newid hynny." (UC)*
>
> *Dw i'n meddwl pan ddaeth y Ddeddf i rym … mai un o'r problemau oedd nad oedd Cymru yn barod amdani o ran y feddylfryd, ond … un o'r pethau positif ydy bod pobl yn siarad amdani a hyd yn oed os nad ydy pobl yn ei deall yn llawn, maen nhw'n gwybod bod gofyn iddyn nhw wneud rhai pethau … maen nhw i fod i feddwl amdano a dw i'n meddwl bod hynny yn rhyfeddol, sydd ddim yn wych ond bu amser nad oedd hyd yn oed yn y feddylfryd o gwbl." (LD – ymarferydd)*
>
> *"Mae'r biwrocratiaeth yn enfawr … a'r Cofnodion ddaeth allan – roedd gen i lyfr mor drwchus â'r Beibl yn dod allan o bob cyfarfod ac roedd disgwyl i chi eu darllen a'u hystyried cyn y cyfarfod nesaf … fe wnes i hynna am tu 18 mis a phenderfynu gadael er lles fy iechyd meddwl fy hun, a bod yn onest." (MH)*
>
> *"Y peth arall sydd wedi newid o ran y feddylfryd ydy'r … Tîm Delfrydol (Dream Team)… sy'n hwyluso bob yn ail cyfarfod… nid dim ond hwyluso, ni sy'n gosod yr agenda os bydd problemau y credwn bod y grŵp hwn o uwch reolwyr yn eu hanwybyddu. Cynhelir cyfarfod bob mis … felly bob dau fis mae'n cael ei gynnal yn llwyr gan y Tîm Delfrydol sydd, erbyn hyn, yn cynnwys tua 30 o unigolion gydag anableddau dysgu." (LD – ymarferydd)*

*Cysylltiadau*

3.35 Yn aml, nodwyd bod ansawdd **cysylltiadau** – a gwerthfawrogiad cadarn o werth cysylltiadau da ymhlith y rhai oedd yn cymryd rhan – yn chwarae rhan hanfodol yn natblygiad cyd-gynhyrchu. Sylwer yma y gellir ystyried gwerth cysylltiadau yn nhermau cyd-gynhyrchu mewn gwahanol gyd-destunau ar yr un pryd: yn ansawdd y rhyngweithio rhwng yr unigolion oedd ynghlwm, rhwng unigolion a sefydliadau a rhwng sefydliadau.

*"Mae'n gwneud byd o wahaniaeth pan fydd rhywun yn cymryd amser i ddod i'ch nabod a gwrando ac yna yn gallu eich helpu heb eich anablu, os ydyc chi'n deall beth sydd gen i. Mae fel tasai yn eich galluogi … I mi mae cyd-gynhyrchu yn ymwneud â pherthynas a rhoi amser i berthynas a phawb yn buddsoddi yn y perthnasau hynny." (MH – ymarferydd)*

*"Dw i wedi cael cymorth gofal cymdeithasol ers 25 mlynedd ac yn ystod yr amser hwnnw, mae fy awdurdod lleol ... wedi bod yn anodd iawn. Nid cyd-gynhyrchu ydy'r ffordd y maen nhw'n gweithio gyda fi … dydy e ddim yn ymestyn allan… dydy e ddim yn berthynol nac yn ymatebol … Hoffwn iddyn nhw wrando arna i, achos byddai hynny yn wych a byddai fy mywyd yn llawer gwell." (PPI)*

*"Roedd y broses o ddatblygu perthynas yn ystod y cyfnod hwnnw [cyd-gynhyrchu strategaeth] yn wych a theimlai, gan ei fod yn cael ei wneud yn araf a chyson ... ei fod yn wirioneddol dda, ond roedd pethau eraill yn cael eu gwneud ar ras wyllt ... dw i'n meddwl bod arafu pethau yn eitha pwysig a dw i'n meddwl beth ddwedodd G am wrando … chi'n gwybod, pan fydd pobl yn gwrando ar eich stori a dilysu'ch stori, ... yn y bôn, mae'n nhw'n dweud mai dyna'ch cymhwyster, dyna'ch profiad – mae hynny'n bwysig". (UC)*

*"Synnwyr o gydbwysedd … o ddwyochredd… pob cwrs yn cael ei lunio gan y bobl sy'n mynychu." (MH, ymarferydd)*

*"Gall ymglymu pobl gyda phrofiad o fywyd mewn [recriwtio]… weithio'n dda neu dim – mae'n dibynnu'n llwyr ar sefydlu system sy'n mynd i gynnig cymorth a rheolaeth ... [i] alluogi pobl i fanteisio i'r eithaf ar y profiad hwnnw … mae'n datblygu'r strwythurau a … meithrin perthynas." (MH – ymarferydd)*

*"Dw i ddim yn teimlo bod gen i unrhyw berthynas gwaith gyda fy ngweithiwr cymdeithasol. Teimlai fel bod [hi'n dweud] "Rhaid i chi wneud hyn a'r llall" [ac yna] "O, dydy hynny ddim yn ddigon da." (PICS)*

3.36 Gall yr **amser** a dreulir gyda'ch gilydd yn datblygu **perthynas ymddiriedus** a **chyd-weledigaeth** ar gyfer sut dylai fod yn trawsnewid pethau, fel y gwelir yn natblygiad gofal cartref mewn un awdurdod lleol.

*"Drwy ddod â staff i mewn a gweithio ar y berthynas honno rhwng staff gofal a'r bobl sy'n derbyn gofal, fe weithion nhw allan ymhlith ei gilydd beth oedd angen ei wneud, sut i'w gyflenwi a phryd caiff ei gyflenwi … a dyna'r darn y gweithion ni'n eitha caled arno." (P)*

*Iaith*

3.37 Mae'r **dull o siarad a'r defnydd o iaith** yn bwysig iawn i ddefnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr oherwydd bod cyd-gynhyrchu yn dibynnu ar gyfathrebu.

*"Un o'r problemau dwi'n credu ydy bod gweithwyr proffesiynol y maes meddygol yn siarad un iaith a'r bobl maen nhw'n gofalu amdanyn nhw yn siarad iaith arall" (MH – ymarferydd)*

*"Ar un ochr, cewch y gofalwyr di-dâl a phobl anabl ac yna eich cynghorwyr ar yr ochr arall ... a dydyn nhw ddim yn siarad yr un iaith… ac yna mae'r holl grwpiau gwahanol 'ma... mae'n wir araf." (UC)*

*"Rhoddodd y gweithwyr proffesiynol gyflwyniad gwych ar hunan-eiriolaeth a'r gwahanol agweddau o hunan-eiriolaeth ac ar ôl tua 20 munud dywedodd un o'r hunan-eiriolwyr, "Mae'n ddrwg gen i ond dwi ddim wedi deall gair a ddywedoch chi." (P)*

*"Ac mae llawer mwy cymhleth i gael llais ar y cyd, pan geir amrywiaeth o wahanol bobl gyda gwahanol ddealltwriaeth, lefelau gwahanol o hyder, gwahanol anghenion ac amcanion gwahanol… ac yna cewch bod pobl wedi cam glywed yn llwyr." (P)*

*"Mae [llawer o gyd-gynhyrchu] yn dibynnu ar y gair llafar neu'r gair ysgrifenedig' Dydyn ni ddim yn dda am ddefnyddio dulliau eraill i helpu pobl fynegi eu teimladau. Mae angen dulliau arnon ni rannu eu profiadau fel y gallwn ni eu defnyddio er mwyn cyfeirio'r profiadau hynny yn y modd priodol" (MH – ymarferydd)*

*"Dwedais wrth [y gweithiwr cymdeithasol] "Fe wnaethoch chi fy nghamddehongli neu fy nghamddyfynnu sawl gwaith, chi'n gwybod … dwedodd hi [y gweithiwr cymdeithasol] un peth a dwedais, "Na, roedd hynna'n hollol groes i'r hyn ddwedes i." (PICS)*

*Arweinyddiaeth*

3.38 Mae **cymorth a chaniatâd arweinwyr** yn hanfodol ym marn ymarferwyr a rhai defnyddwyr gwasanaeth – er, hyd yn oed pan geir hynny, roedd rhwystrau systematig yn arafu pethau mewn rhai achosion.

*"Mae parodrwydd ar lefel uwch swyddogion … efallai fwy yn ddiweddar. Dw i'n meddwl eu bod yn ei chael hi'n anodd ... mae ganddyn nhw strwythurau ac mae ffitio i mewn i'r strwythurau hynny yn anodd" (MH)*

*"Mae angen i bobl ei wthio yn y mannau priodol, ac i wybod beth mae pobl yn siarad amdano, felly fyddan nhw [y gwasanaethau statudol] yn llithro nôl i ymgynghori." (LD – ymarferydd)*

*"Dw i'n teimlo, oherwydd i ni gael y prosiect dwy flynedd hwn ac yn mynd i mewn i'n trydedd blwyddyn – mae rhai o'n huwch swyddogion yn dechrau dod i'w ddeall…. [Y rhain] ydy'r arweinwyr, y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau - oni chawn y rhain ar ein hochr, ni chaiff cyd-gynhyrchu gefnogaeth ar raddfa fawr." (LD – ymarferydd)*

*"Weithiau mae'n cychwyn ar y brig ond dydy e ddim yn treiddio i lawr." (MH)*

*"A'r hyn sydd wir ei angen ydy uwch was sifil sydd ar eich ochr chi i reoli'r broses." (PPI)*

*"Yn fy marn ni dydy cyd-gynhyrchu ddim ond yn gweithio pan fydd yn dod o'r top. Mae'n ymwneud ag arweinyddiaeth dda a dealltwriaeth ar ran y rhai sy'n gwneud y penderfyniadau." (PWD)*

3.39 Gan ehangu ar y pwynt hwn, nododd cyfranogwyr, byddai cyd-gynhyrchu'n digwydd yn aml oherwydd unigolion mentrus ac egwyddorol gyda digon o ymroddiad, gwybodaeth ac egni – a dylanwad.

*"Yn [enw'r bwrdd iechyd], mae ganddyn nhw uwch swyddog sy'n gyfrifol am gyd-gynhyrchu o fewn y sefydliad ac felly mae'n amlwg eu bod yn cymryd y peth llawer mwy o ddifri." (UC)*

*"Yn [enw'r awdurdod] mae ganddyn nhw ddyn sy'n bennaeth [taliadau uniongyrchol] sy'n flaengar iawn a blaengar ei syniadau sy'n  gwneud ychydig o waith yn y maes ... dydy hynny ddim yn golygu bod pethau'n fêl i gyd, ond mae mewn sefyllfa i allu argyhoeddi pobl bod derbyn Taliadau Uniongyrchol ... sy'n*

*fesur arbed arian mewn gwirionedd oherwydd bod pobl yn hapusach yn eu cymuned." (UC)*

*"Mae angen i chi gael rhywun sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyd-gynhyrchu yn gweithio ac nid dweud "O, pwy sy'n mynd i gyd-gynhyrchu? O, ddwedai beth, fe wnawn i ei roi i … y grŵp profiad cleifion … neu i grŵp o weithwyr cymdeithasol y mae rhaid iddyn nhw ei wneud yn flaenoriaeth." (PWD)*

*"[Fel Cyfarwyddwr newydd Gwasanaethau Cymdeithasol] fe wnaeth hwn rywbeth rhyfeddol… y peth wnaeth e pan ddaeth i rym oedd... mynnu bod rheolwr pob adran ynghyd â'r holl uwch reolwyr, rhai gweithwyr cymdeithasol iau, pobl o'r bwrdd iechyd lleol ac eraill [fel fi] … 300 o bobl yn dod at ei gilydd o gwmpas byrddau crwn mawr. Ac ar bob bwrdd roedd cymysgedd o bobl – fel nad oedd pobl o faes gwaith cymdeithasol yn eistedd yn ymyl ei gilydd … a dywedodd "Dw i am i chi sgwrsio a dod i nabod eich gilydd" … a dweud, "Mae bwyd yn y cefn … Rydw i am i chi symud o gwmpas a dod i wybod am fywydau'ch gilydd" … ac roedd yn wych. Dim ond am 3 blynedd buodd e yno ond fe weithiodd popeth yn ystod y cyfnod hwnnw." (PPI)*

*"Yn aml mae newid wedi digwydd, nid oherwydd rhyw rwydwaith gwych ond oherwydd cyfraniad un unigolyn" (P)*

3.40 Enghraifft o **gymorth gan uwch reolwyr** ar gyfer cael cyd-gynhyrchu weithio ydy ail-fodelu gwasanaethau dydd mewn awdurdod lleol.

*"Mabwysiadon ni (awdurdod lleol) ddull cyd-gynhyrchiol o fynd ati i ailfodelu gwasanaethau… Comisiynon ni asiantaeth partner i wneud peth o'r gwaith ar ein rhan er mwyn cael ychydig o annibyniaeth … roedden ni am fod yn ddilys ... Dewison ni'r sefydliad hwn gan eu bod yn cynnig mynd ati drwy gynnal nifer o gyfarfodydd bach wyneb yn wyneb gyda phobl yn eu cyd-destun yn hytrach na chynnal un digwyddiad ymgynghorol enfawr… Rydyn ni nawr wedi llunio model a fydd yn arbed arian i mi ond does dim raid i mi brotestio yn ei gylch … felly, gallwch ymddiried yn y broses ond bod angen amser arnoch chi i'w sefydlu ac er mwyn cadw'n driw i'r cyd-gynhyrchu … rhaid i chi fuddsoddi mewn pobl a rhoi amser, gofod ac arian iddyn nhw … mae angen i chi fod yn onest a thryloyw" (P – Pennaeth Gwasanaethau Oedolion)*

*Graddfa*

3.41 I lawer, mae cyd-gynhyrchu ar ei orau pan fydd ffocws y gweithredu o'r **gwaelod i fyny** a/neu ar **raddfa lai,** efallai'n deillio o gydweithredu mympwyol neu wedi

ffocysu ar faterion penodol o bryder – er enghraifft materion a nodwyd gan ofalwyr neu weithwyr gofal.

*“Mae cyd-gynhyrchu ar ei orau pan na chaiff ei osod gan sefydliad arbennig ac yna ei ymledu. Mae’n gweithio’n well pan fynegir angen gan grŵp cymunedol neu grŵp o ofalwyr sydd wedyn yn mynd ag e i gorff statudol a fydd yn gweithio... gyda hynny.” (UC)*

*“Yn fy mhrofiad i, y bobl sydd mewn uchel swyddi sy’n dueddol o wneud y siarad tra gwrando fydd pobl eraill a dydy hynny ddim yn argoeli'n dda am gyd-gynhyrchu da.” (PWD)*

*“Ces bod cyd-gynhyrchu… y pethau rydw i wedi bod yn rhan ohonyn nhw, wedi gweithio’n dda pan fydd yn fychan, gyda grwpiau bach… a phan fydd gan bawb yr un diddordeb mewn cyflawni rhywbeth arbennig.” (UC)*

*“Fel unigolion, roedd gofalwyr yn cael ychydig o drafferth gyda gofal ysbaid… ac yna daeth y grŵp at ei gilydd ac roedd yn broblem gyffredin ymhlith pawb. Ac aethon ni â’r broblem gyffredin at yr awdurdod lleol – edrychon ni ar yr hyn ddylai ddigwydd; dwedon ni wrthyn nhw beth oedd yn digwydd mewn gwirionedd. A gweithion ni gyda’n gilydd i greu tonnau a grymuso’r grŵp hwnnw a’r gwasanaeth … dechreuodd pethau newid… newidion nhw’r modd roedd y broses bwcio yn digwydd ac roedd hi’n ddeialog agored rhyngddon ni a’r awdurdod lleol a dechreuodd pethau wella. Gwelon ni hynny’n bendant, mae’n dangos sut y gall weithio.” (UC)*

*“Mae rhai o'r datrysiadau mwyaf diddorol problemau cyd-gynhyrchu wedi tarddu o du gofalwyr ar lawr gwlad. … O hadau bach iawn y syniadau arloesol mae dau neu dri o ofalwyr gofal wedi mynd ymlaen a gwneud rhywbeth yn eu lle eu hunain” (P)*

*Staffio a hyfforddiant*

3.42 Amlygodd nifer o gyfranogwyr sut mae **trosiant cyson o ran staffio** yn gwneud cyd-gynhyrchu yn anodd.

*“Erbyn i’r babi fod yn barod i gael ei fabwysiadu, roeddwn wedi cael 7 o weithwyr cymdeithasol ac roedd yn 13 mis oed erbyn iddo cael ei fabwysiadu’n derfynol. Felly, does dim cyfathrebu, dim cyfathrebu o gwbl, rhwng gweithwyr cymdeithasol a’i gilydd. Ces un gweithiwr cymdeithasol yn dweud wrtha i eu bod yn mynd i weithio gyda fi a’r babi ac yna, doedd gan y gweithiwr cymdeithasol ddim syniad am hynny o gwbl …… ac yna gweithiwr cymdeithasol o asiantaeth*

*oedd y nesaf a ddwedodd  gelwydd yn y llys… newydd gymhwyso oedd y gweithiwr cymdeithasol nesaf a doedd dim syniad ganddo beth roedd e'n ei wneud  …. prin oedd Saesneg y gweithiwr cymdeithasol olaf. Roeddwn yn cael fy nhynnu a fy rhwygo … pobl yn dweud pethau gwahanol wrtha i. Don i ddim yn gwybod beth roeddwn i'n ei wneud na ble roedden i'n mynd … [doedd] dim perthynas o fath yn y byd, dim math o gysylltiad" (PICS)*

*"Mae'n anodd i gael pobl i ddeall [cyd-gynhyrchu] ond ar y cyfan mae'r parodrwydd yno ond mater o gadw'r fflam ynghyn ydy hi ynte… oherwydd bod eich staff a'ch systemau yn newid a bod pethau'n dod lawr o'r top sy'n llethu pobl i raddau a bod rhaid iddyn nhw gwrdd â'r targedau a'r canlyniadau hyn a'r holl bethau sy'n dod o'r top i lawr… mae troi pethau i'r gwrthwyneb a chadw i fynd yn waith caled" (MH)*

*"Dyna sut mae hi – mae'r rhai da [gweithwyr cymdeithasol] yn gadael" (PICS)*

3.43 Os bydd ymarferwyr a defnyddwyr gwasanaeth yn fodlon cyd-gynhyrchu, dydyn nhw ddim bob amser yn gwybod sut i fynd o'i chwmpas hi. Mae gweithredu cyd-gynhyrchu yn llawn yn golygu **hyfforddiant ac ymarfer** a gallai'r ddarpariaeth yma fod yn fylchog ac ysbeidiol.  Ystyrir bod dysgu mewn grwpiau cymysg yn fuddiol gan ei fod yn torri ar draws silos.

*"Mae ganddon ni'r ddeddfwriaeth wych hon yng Nghymru yr ydyn ni gyd yn cytuno bod ei hegwyddorion yn wirioneddol gadarn… ond yn ymarferol, dydy hi ddim bob amser yn digwydd fel hynny… mae pobl yn gwybod pam ei bod yn bwysig… yr hyn sydd ar goll ydy sut ydyn ni mynd i wneud hyn?" (UC)*

*" Os  nad ydych chi o ddifri, does dim ots pa systemau rydych chi'n sefydlu neu faint o hyfforddiant a gewch chi ac mae hynny yn broblem fawr iawn" (P)*

*"Cyd-gynhyrchu … yn  bersonol, dydw i ddim wedi gwneud dim byd ag e … yn syml oherwydd na ches i unrhyw hyfforddiant a dw i eisiau gwybod pa lwybr a thrywydd sy'n gywir i'w gymryd... felly, holl bwynt dod yma i dod o hyd i'r cysylltiadau, canfod y llwybrau hynny." (LD)*

*"[Mae hyfforddiant yn cael ei ddarparu] ochr yn ochr â phobl sydd â phrofiad bywyd… ac rydyn ni'n gweld, yn llythrennol, fod pethau'n dod yn eglur… [lle] mae'r feddylfryd yn newid i'r bobl sy'n mynychu'r hyfforddiant – yn enwedig mewn perthynas â'r heddlu a chynghorwyr tref. Rwyf wedi gwneud rhywfaint o hyfforddiant cyngor tref dros y blynyddoedd ac yn aml maen nhw'n dod â meddylfryd eithaf sefydlog [am yr hyn] y maen nhw'n ei feddwl am broblemau iechyd meddwl a beth ddylai ddigwydd, a gallwch yn llythrennol weld pethau'n*

*newid o flaen eich llygaid, ac oni bai am gyd-gynhyrchu, fyddai hynny ddim yn digwydd, mi fydden nhw'n mynychu'r hyfforddiant ac yna'n mynd i ffwrdd eto". (MH – ymarferydd).*

*"Cawsom bawb yn yr un ystafell hyfforddi ac roedd yn ddiddorol iawn, iawn. Cawsom adborth ganddyn nhw ac roedd darparwyr yn dweud 'O, doeddwn i ddim yn sylweddoli hyn' ac roedd gweithwyr cymdeithasol yn dweud 'Wel, wnes i erioed feddwl am hynny' " (P)*

*"Cynulleidfa hyfforddi gymysg, sy'n gweithio'n dda i gyfnewid arferion, chwalu rhwystrau a deall rôl ei gilydd a dim ond rhyw fath o alluogi'r gofalwr maeth i deimlo mai e neu hi ydy'r gweithiwr proffesiynol" (P)*

3.44 **Ystyriwyd bod diffyg adnoddau a phwysau ehangach, cyffredinol ar y gweithlu** yn llesteirio gweithredu cyd-gynhyrchu a'r posibiliadau ar gyfer yr arferion gorau - yma, yn y trydydd sector a'r sector statudol.

*"Rwy'n eu canfod wedi blino a digalonni ... wyddoch chi beth ydw i'n geisio ddweud? Maen nhw wedi mynd trwy'r felin ac yna'n dod i'r penderfyniad a chredu mai'r pethau mwyaf cyfyngol y gallan nhw eu gwneud ydy'r rhai mwyaf diogel." (MH)*

*"Bydd Llywodraeth Cymru yn cysylltu â [sefydliadau mawr] ac yn rhoi symiau anhygoel o arian iddyn nhw… a dyw e ddim wedi treiglo i lawr… Os ydych chi eisiau cyd-gynhyrchu, mae'n rhaid iddo fod ar lawr gwlad." (LD - ymarferydd)*

*"Rydych chi angen arian i hyn… os ydy pobl yn mynd i roi o'u hamser mae angen eu talu. Mae gennyn ni brosiect ICF arall – bellach mae gennym ni bum pencampwr AD o fewn [y sir] sy'n cael eu talu am eu gwaith ac mae hynny wedi newid pethau." (LD - ymarferydd)*

*"Mewn {awdurdod lleol penodol]… mae ein grwpiau Pobl yn Gyntaf yn cael eu rhedeg yn gyfan gwbl gan wirfoddolwyr nawr heb unrhyw arian o gwbl." (LD)*

*"Mae gennym ni awdurdodau lleol sy'n rhyw ddweud, 'Gall Llywodraeth Cymru ddweud beth maen nhw moyn'… Rydyn ni'n eu cyfeirio at y Ddeddf – at yr hyn mae honno'n ei ddweud, ond… mi fydd awdurdodau lleol yn troi rownd ac yn dweud 'Gall Llywodraeth Cymru ddweud beth fynnon nhw, ond does gennyn ni ddim arian i'w wneud e'… Mae'n teimlo ein bod ni mewn brwydr sy'n cael cholli mewn sawl ffordd." (LD)*

*"Mae cyllid prosiect gan y Loteri Genedlaethol yn… anffodus yn dod i ben nawr… ac yn anffodus does gennym ni ddim llawer o arian i barhau. Mi allwn fynd ymlaen â pheth ohono, ond ddim gyda llawer ohono, ac roedd hyn wedi gwneud cymaint o wahaniaeth i fywydau pawb." (BVIP - ymarferydd)*

*Cefnogaeth ar gyfer cyfranogiad (ac adborth arno).*

3.45 Yn enwedig o safbwynt gofalwyr, ystyriwyd bod cyd-gynhyrchu da yn gofyn am roi **sylw meddylgar i gostau a heriau ymarferol cymryd rhan, fel cyfranogwr.** Yn gysylltiedig, roedd **taliad am gymryd rhan mewn cyd-gynhyrchu** yn cael ei werthfawrogi, ond gallai gael ei rwystro gan systemau a gallai ymyrryd â buddion pobl.

*“Fe aeth pethau'n dda oherwydd eu bod nhw'n ceisio ei wneud mor hygyrch â phosibl o ran trefnu bod gennych chi gludiant… a, wyddoch chi, roedd yna dâl am ein hamser.” (UC)*

*“Hynny, rydw i wedi bod i gyfarfodydd cyd-gynhyrchu sydd ddim hyd yn oed wedi talu costau teithio… rydyn ni wedi bod mewn un lle na chawson ni hyd yn oed wydraid o ddŵr. Mae'n wael iawn. Maen nhw'n eich trin chi fel eich bod chi'n dipyn o niwsans." (U)*

*“Fe wnaethon nhw gynnig talu i mi am yr hyfforddiant yna … wnes i ddim cymryd yr arian, oherwydd byddai’n amharu ar fy mudd-daliadau ar y pryd… ond roedd y cynnig yn bwysig.” (MH)*

*“Dydyn ni ddim yn cael ein talu - rydyn ni'n cael cost y cludiant, mae ein costau teithio wedi'u talu, ond yna mae angen adnoddau eraill arnoch chi fel y gall pobl gymryd rhan, wyddoch chi. Efallai bod angen gofal seibiant arnyn nhw… dylai fod yn hawdd i bobl fod yn rhan o'r grwpiau hyn a chynrychioli, ond mae’n rhaid cael cefnogaeth strwythuredig, sydd yn aml ar goll.” (UC)*

*“Mae hwnna’n un reit ddiddorol, achos mae 'na gonsensws o gytundeb – dylai, fe ddylai pobol gael eu talu… a ry’n ni wedi gwneud gwaith am hyn, am yr hyn ydyn ni’n gredu y dylai’r gyfradd fesul awr fod ac edrych ar lefelau’r taliad… [ond] beth dydyn ni ddim wedi gallu sefydlu cystal, ydy pwy ddylai eu talu a sut mae hwnnw’n mynd i gael eu talu a phryd mae pobl yn mynd i gael eu talu?” (MH)*

3.46 Ffynhonnell gyffredin o ddigalondid i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr oedd **diffyg adborth sylweddol a gwybodaeth ddilynol** yn dilyn gweithgareddau cyd-gynhyrchu.

*Mae angen i chi ddangos i bobl bod yr hyn maen nhw wedi'i awgrymu yn cael effaith... mae angen iddyn nhw gydnabod bod newid wedi digwydd, mae hyd yn oed newidiadau bach yn iawn ac yn ddilys, ond dydyn nhw ddim yn cael clywed." (P)*

*"Roedd y prosiect cyd-gynhyrchu cyntaf yn 2017. A does dim byd wedi dod o hynny… ac roedd hwnnw'n brosiect ar raddfa fach iawn mewn un canolfan ddydd... Ac ers hynny, rydw i wedi bod yn ymwneud â phrosiectau llawer mwy eang... mae rhai ohonyn nhw'n dal i lusgo ymlaen, ond does dim byd wedi dod mewn gwirionedd o unrhyw un o'r holl oriau rydw i wedi'u rhoi i'r pethau hyn, neu os daeth rhywbeth ohonyn nhw, does neb wedi dweud hynny wrtha i". (UC)*

3.47 Roedd y cyfranogwyr yn gweld bod cyd-gynhyrchu yn gofyn am fod yn **agored** ac yn **hyderus**. Gall y ddau fod yn heriol i bobl sy'n cael eu cefnogi gan wasanaethau, yn enwedig y rhai sy'n teimlo dan fygythiad, wedi'u stigmateiddio neu wedi'u gwthio i'r cyrion.

*"Os ydyn ni'n gweithio mewn dull cyd-gynhyrchiol, mae angen i bobl allu dweud beth maen nhw'n ei deimlo; mae angen iddyn nhw ddweud ai'r defnyddiwr gwasanaeth neu bennaeth y bwrdd iechyd ydy hwnnw. Dylai pawb allu mynegi eu hunain, oherwydd fel arall mae cyd-gynhyrchu yn ddiystyr os nad ydy pobl yn ymddwyn yn onest." (MH)*

*"Mae angen i chi hyfforddi pobl i gael hyder i gydweithio" (CVAMH - ymarferydd)*

*"Dw i ddim ond wedi bod yn gweithio gyda [mudiad trydydd sector] ers mis Rhagfyr ac mae cymaint wedi newid… dwi'n llawer mwy hyderus… o edrych ar y cyfarfod hwn [gweithdy gwerthuso] fel hyn, fe fyddwn i wedi dweud "Dim byth", ond ar ôl cyfarfod â'r merched a siarad ar-lein… mae wedi cynyddu fy hyder, i fynegi fy meddwl a dweud beth rydw i eisiau" (PICS)*

*"Un o'r pethau mawr sydd gennyn ni yn [y mudiad trydydd sector] ydy adeiladu hyder pobl ar ôl iddyn nhw golli eu golwg, sy'n drawma... ac yn sydyn iawn, mae'n rhaid iddyn nhw lenwi ffurflen i'r Adran Gwaith a Phensiynau ac… erbyn diwedd llenwi'r ffurflen fel 'na [gyda'r holl bethau na allwch eu gwneud], mae hyder yr unigolyn yna wedi'i droi'n ddim… Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn gweithio'n debyg iawn i hynny hefyd…" ( BVIP – ymarferydd)*

*"[mae wedi rhoi] hyder i mi allu siarad – hynny ydy, ar ôl i chi ddod dros rywbeth… mae'r bobl hyn [rheolwyr gwasanaeth] yn hawdd siarad â nhw… am wn i nag ydyn nhw'n ei gwneud i chi deimlo bod beth sydd gennych chi i'w ddweud yn werthfawr" (MH)*

*"Rwy'n credu ei bod yn cymryd lefel benodol o wybodaeth a hyder i fynd at bobl mewn gwasanaethau statudol a dweud "Arhoswch funud, rwy'n meddwl fy mod yn gwybod yn well na chi ar hyn" (MH)*

3.48 Mae hyrwyddo cyd-gynhyrchu fel llais lleiafrifol neu gynigydd unigol yn anodd, yn enwedig ymhlith pobl sydd â diffyg hyder. Gall **eiriolaeth broffesiynol a chymheiriaid a gweithredu ar y cyd cysylltiedig** fod yn hanfodol i feithrin hyder a chryfhau cyd-gynhyrchu, ond dim ond, fel y mae cyfranogwyr yn ei awgrymu, os caiff ei wneud mewn ffordd briodol sy'n cwrdd â phobl lle maen nhw'n byw.

> *"I ddeall a gweithredu cyd-gynhyrchu… mae hynny'n eithaf anodd a phan ti'n griw bach [sy'n 'ei dderbyn'] i wneud hynny, mae'n rhaid i chi fath o ddewis eich brwydrau." (MH)*

> *[Ynglŷn â pherson byddar gyda phroblemau iechyd meddwl]… roedden ni wedi ein cynnwys fel gwasanaeth arbennig ar y funud olaf, oherwydd yr hyn a ddarparwyd ar y dechrau oedd rhywun oedd yn clywed a oedd â gallu Lefel Un yn unig mewn iaith arwyddion, a oedd yn golygu nad oedden nhw yn 'ddim yn gallu sgwrsio gyda'r person byddar yn y ffordd gywir… doedden nhw ddim yn gallu newid eu hiaith neu peidio na newid eu strwythur yr iaith er mwyn paru'r unigolyn roedden nhw'n ceisio eiriol drosto… roedd yr unigolyn byddar, er ei fod dioddef ag afiechyd meddwl, wedi gorfod newid eu gallu ieithyddol er mwyn ffitio i mewn â'r eiriolwr a roddwyd iddo." (DHIP)*

> *"Mewn [ALl arall], mae yna grŵp sefydledig o ofalwyr ac mae'n wych… grŵp o rieni sy'n adnabod ei gilydd yn eithaf da, felly gallan nhw ddod at y gwaith fel rhyw fath o floc. Tra, yma… dydy'r rhan fwyaf o'r gofalwyr ddim erioed wedi cyfarfod â'i gilydd o'r blaen… dydyn nhw ddim yn ffrynt unedig mewn gwirionedd… dydy llawer ohonyn nhw ddim erioed wedi bod yn gysylltiedig ag unrhyw gyd-gynhyrchu o'r blaen a… rydwi'n gallu gweld eu bod yn cael eu harwain a'u llywio mewn ffordd arbennig, wyddoch chi, gan yr [ALl]". (UC)*

*"A byddwn ni [aelodau'r grŵp cymorth cymheiriaid] yn dweud hynny os nad ydyn ni'n hapus gyda'r hyn maen nhw [yr ALl] yn ei roi ar waith. Fe ddwedwn ni "Na… sori, allwch chi ddim dweud wrthon ni beth ydy'r weledigaeth ar gyfer y rhaglen drawsnewid – sut allwch chi gael gweledigaeth sy'n [ddim ond] eich gweledigaeth chi ac nid ein gweledigaeth ni?" (UC)*

*Amser*

3.49 Roedd defnyddwyr gwasanaeth ac ymarferwyr i gyd yn cytuno bod angen rhoi **amser** er mwyn i gyd-gynhyrchu ddod i weithio, o ran rhoi digon o amser cyffredinol i brosiectau weithio, ond hefyd o ran mecanwaith eu gweithrediad o ddydd i ddydd. Mae **ariannu dros dymor byr** ar brosiectau trawsnewid yn tanseilio hyn.

*"Mae'r cyrsiau'n wirioneddol wedi'u cyd-gynhyrchu, ond… maen nhw'n cymryd amser i'w datblygu, ac yna pan fydd pobl (cyfoedion) yn gadael, a phobl newydd yn cyrraedd, dydyn nhw ddim yn hapus i ddilyn yr hyn a ddatblygwyd o'r blaen… maen nhw eisiau cyd-gynhyrchu o'r newydd… mae hyn i gyd yn cymryd amser." (MH)*

*"Mae cyd-gynhyrchu yn cymryd llawer o amser, a dydw i ddim yn golygu yn statudol ac yn sicr mae Llywodraeth Cymru yn deall hynny hyd yn hyn... er mwyn i mi drefnu un cyfarfod... rydw i, hwyrach, yn gorfod ymdrin â mwy na 50 o e-byst a negeseuon Facebook." (LD - ymarferwr)*

*"Ac yna, mae'r gwaith papur [ar gyfer cyfarfodydd] rydyn ni i fod wedi ei ddarllen drwyddo sawl gwaith, ond ches i ddim cyfle i wneud hynny ac yna… mae gennych chi 10 munud [i'w ddarllen drwyddo] cyn y cyfarfod, ond mae mor drwchus â hyn!" (PICS)*

*"Dw i ddim yn credu bod llawer o bobl wir yn deall ei bod hi'n broses araf, mae'n ymddangos eu bod nhw'n meddwl, os ydyn nhw'n dweud rhywbeth nawr, y dylen nhw fod yn gweld newidiadau yr wythnos nesaf, a dydy hi ddim mor hawdd â hynny i roi newid ar waith pan fydd yn golygu newid polisi ar ôl polisi." (LD - ymarferydd)*

*"Amser – mae'n cymryd amser i allu gosod cyd-gynhyrchiad ynghyd yn effeithiol ac mae'n cymryd amser i wrando." (MH)*

*"Wyddoch chi... allwch chi ddim trawsnewid pethau mewn cwpl o flynyddoedd, ond dwi'n credu ein bod wedi mynd peth o'r daith." (LD - ymarferydd)*

*Y Cyd-destun Cymreig*

3.50 Roedd rhai cyfranogwyr o'r farn **bod Cymru'n lle adeiladol ar gyfer ymgysylltu â'r rhai mewn grym mewn ffordd gyd-gynhyrchiol** – er enghraifft, yn achos datblygu safonau dementia. Er gwaethaf yr holl rwystredigaethau, roedd y cyfranogwyr yn gadarnhaol iawn ynghylch bwriadau Llywodraeth Cymru.

*"[gan weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru a Gwelliant Cymru ar ddatblygu Safonau Dementia] mae yna ofod cyfartal yn ogystal â gofod deialogaidd, lle mae pawb yn cael eu trin yn union yr un fath, boed yn seiciatrydd ymgynghorol, neu'n bennaeth adran reit uchel, [neu] brifysgol, neu gyn-forwr llesg sy'n byw yn [rhan*

*arbennig o'r dref]. Rwy'n golygu ein bod ni i gyd yn cael ein trin yn union yr un fath, ac mae ein barn a'n hoffterau yn cael eu gwerthfawrogi." (PWD)*

*"[Roeddwn i mewn digwyddiad] ... dywedodd [Aelod Cynulliad] "mae lleisiau pobl â dementia wedi newid meddwl Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r polisi dementia cenedlaethol" a dyna fi'n meddwl 'Wow!'" (PWD)*

*"Dw i'n credul bod gennym ni lais cryf yng Nghymru… rydyn ni ym mhobman, wyddoch chi. Rydyn ni'n hoffi chwarae, allwch chi ddim ein cadw ni allan o unrhyw beth." (PWD)*

*COVID-19*

3.51 Mewn ffyrdd arwyddocaol, a dydy hyn fawr o syndod, mae **pandemig COVID-19** wedi tanseilio cyd-gynhyrchu

*"Cyn Covid, roedd eu bwriadau [yr RPB] yn dda ac roedd pobl yn cymryd rhan [mewn gweithio ar strategaeth gofalwyr] ond pan darodd Covid, yn lle ei roi'n rhannol o'r neilltu neu geisio ei wneud trwy Zoom, fe wnaethon nhw geisio ei leihau a defnyddio rhywfaint o'r wybodaeth a gawson nhw o'r ymgynghoriadau cynnar gydag ychydig iawn o ofalwyr a defnyddio hynny i seilio'r strategaeth gyfan arno… yna swyddog yn y RPB (Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol) a luniodd y strategaeth gofalwyr maith hwn, nad oedd, yn fy marn i, ddim yn un da iawn, gydag ychydig iawn o gyfle â phosibl i fwydo i mewn iddi a'i newid" (UC)*

*"Yn ystod y cyfnod cloi fe ges i un alwad ffôn ar y dechrau, gan weithiwr cymdeithasol, nad oedd yn fy adnabod, ac nad oeddwn i erioed wedi clywed amdano nac wedi ei weld erioed… a gofynnodd i mi a oeddwn yn iawn, a dywedais 'Na, dydw i ddim… Rydw i wedi gorfod canslo fy ngofal cartref oherwydd Covid… ac mae hyn yn straen gwirioneddol ar fy ngwraig oherwydd ei bod bellach yn gorfod gwneud gwaith 2 ofalwr bob dydd'. Byddwn wrth fy modd pe bai rhywun wedi gwrando ychydig mwy arna i." (PPI)*

*"Rwy'n credu, yn ystod Covid, fod pethau'n bendant wedi dychwelyd i'r hen ffordd o feddwl, o amddiffyn pobl a gwneud penderfyniadau drostyn nhw… pan aeth hi'n [gair braidd yn gryf] arnon ni, fe aethon ni'n yn ôl at yr hen drefn o feddwl." (LD)*

*"Mae'n debyg bod yna grŵp llai o bobl [sy'n hyrwyddo cyd-gynhyrchu] nawr nag a fyddai wedi bod heb y pandemig… sy'n fodlon… ymwneud â'r broses hon mewn gwirionedd, oherwydd mae llawer o bobl wedi hen ddiflasu." (UC)*

*"Mae rhai o'n haelodau'n cael problemau go iawn yn mynd ar 'Teams' – dydyn nhw ddim yn gallu gwneud hynny, am ba bynnag reswm… Wnaed dim ymgais [gan weithwyr cymdeithasol] i'w rhoi ar unrhyw lwyfan arall. Mae'n achos o 'Os na allwch chi ddefnyddio Teams, allwn ni ddim cwrdd â chi', ac mae hynny wedi bod yn gŵyn barhaus, gan lawer o'n haelodau, a hynny ers i ni ddechrau'r cyfnod clo." (LD)*

3.52 Fodd bynnag, **mae addasu i bandemig** COVID-19 hefyd wedi cyflwyno dod â rhai pethau cadarnhaol, er enghraifft o ran ymwybyddiaeth o ffactorau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaethau, a chanfyddiadau am ystod a gwerth cyfranogiad:

*"Mae gen i rai aelodau sydd byth am ddychwelyd yn ôl i'r gwasanaethau dydd oherwydd mae ganddyn nhw bellach fwy o reolaeth dros eu bywydau, ac yna mae gen i aelodau eraill sydd wedi sylweddoli eu bod nhw wedi byw eu bywydau cyfan mewn cyflwr 'clo' a dim ond pan ddechreuodd pobl bob dydd gwyno am bethau maen nhw mewn gwirionedd wedi sylweddoli eu bod wedi byw fel hyn ar hyd eu hoes, ac maen nhw eisiau newid - felly mae'r pandemig wedi cyflwyno rhai pethau da iawn." (LD)*

*"Mae pob un o'n prosiectau wedi gorfod cael eu cynnal ar Zoom ac mae'r mwyafrif ohonyn nhw'n dal i lwyddo i gyflawni pethau." (LD - ymarferydd)*

*"Mae Zoom yn rhyfedd o gynhwysol mewn amrywiol ffyrdd i bobl benodol oedd wedi eu hallgau yn y gorffennol, rhai sydd efallai nawr ddim yn gorfod teithio ac sydd bellach yn gallu eistedd yn eu cegin neu ystafell fyw gyda'r plant yn y cefndir ac yn cysylltu ar Zoom… neu bobl, sy'n hytrach na bod mewn sefyllfa fygythiol, yn ymuno mewn ystafell enfawr" (P)*

# 4. Crynodeb

4.1 Rydyn ni wedi nodi yn gynharach yn yr adroddiad hwn fod gan gyd-gynhyrchu ddau ragofyniad allweddol yn Rhan 2 o’r Ddeddf

- 'newid yn yr hinsawdd/diwylliant tuag at arferion perthynol a chilyddol
- dinasyddion a gweithwyr proffesiynol yn cael eu gwerthfawrogi’n gyfartal' (Llywodraeth Cymru, 2014, t.53)

4.2 Mae'n amlwg o'n canfyddiadau i wireddu'r amodau hyn fod wedi digwydd, ar y gorau, yn rhannol ac yn bur amrywiol. Yn y ddau achos, ceir enghreifftiau o arferion eithriadol o dda, ochr yn ochr ag achosion lle bu’r cynnydd yn brin iawn, naill ai o ran arferion perthynol neu rai cilyddol, neu o ran ystyried pawb yn gyfartal. Mae’r dasg o hyrwyddo cyd-gynhyrchu wedi arwain at siomedigaethau mewn rhai achosion gan ei fod yn amlygu’r bwlch rhwng sut y gallai pethau fod, a sut y maen nhw ar hyn o bryd – gan nad ydy'r profiadau yn cyfateb i’r hyn a addawyd yn y ddeddfwriaeth nac yn yr ymrwymiad cychwynnol gan sefydliadau i gyflawni yn unol â'r hyn sydd ynddi. Mae yna lawer y gellir ei ddysgu o'r adroddiadau hyn.

4.3 Ymhlith y themâu sydd fwyaf amlwg ar draws y canfyddiadau hyn, fe fyddem yn amlygu pump, a fynegir fan hyn fel datganiadau cadarnhaol:

- mae cyd-gynhyrchu yn dibynnu ar **adnoddau a pherthnasoedd**. Ni fydd yn sefydlu ei hun heb gyllid digonol a chefnogaeth sefydliadol – ond ni fydd ychwaith yn llwyddo heb roi sylw gofalus i’r modd y mae perthnasoedd perthnasol yn dod i fodolaeth ac yn ffynnu.
- mae cyd-gynhyrchu’n dibynnu **ar newid hinsawdd y diwylliant tuag at ddulliau mwy cyfranogol, cilyddol a pherthynol o weithio** ac o alluogi pobl i fod yn ‘wneuthurwyr newid’, o ran ystyried eu hunain fel rhai sydd â hawl i ddweud eu dweud am yr amrediad o wahanol ffyrdd o weithio, ac am y modd y gwerthusir yr hyn sy'n dilyn. Ymhlith y ffactorau llesteiriol amlycaf mae'r agweddau a'r arferion sydd wedi'u hetifeddu o gyfnodau blaenorol a dulliau o weithio ar lefel unigol a sefydliadol. Gall fod yn haws peidio â gwyro oddi wrth y rhain, o ran y tymor byr. Ond bydd hyn yn aml yn rhwystro cyd-gynhyrchu neu'n golygu ei fod yn debygol o fod yn fethiant.
- **mae cyd-gynhyrchu yn seiliedig ar werthoedd**, ac mae’r gwerthoedd hynny’n adlewyrchu sgiliau a chymwyseddau a fydd yn cynnwys **'dysgu deialogaidd'** (Escobar 2011) ar ran pawb sy’n cymryd rhan – sef defnyddwyr gwasanaeth,

gofalwyr ac ymarferwyr ar bob lefel o'u swyddogaeth. Mae'n ddibynnol ar barch, gwrando, ysbryd cydweithrediad, adeiladu ar gryfderau pobl, a'r gallu i uniaethu ag eraill fel rhywbeth sydd o werth cyfartal ac unigryw. Mae yna werth i gyfranogwyr yn y broses, yn ogystal ag yn y canlyniadau.

- efallai bod gan y **gwasanaethau statudol** lawer i'w ddysgu o'r modd y mae **sefydliadau arloesol yn y trydydd sector** wedi rhoi cyd-gynhyrchu ar waith. Gallai hyn arwain at well ymarfer a datblygu rhwydweithiau ar draws 'silos'.
- hyd yn oed pan fo rhanddeiliaid yn rhwystredig, yn flinedig neu'n siomedig nad ydy pethau'n well nag y maen nhw, mae yna farn gref, bron unfrydol, fod cyd-gynhyrchu **yn llawn potensial ac yn rhan o'r ateb** i ffocysu ar fywydau pobl ac nid ar y systemau, o ran y gwasanaethau cymdeithasol a llesiant yng Nghymru.

4.4 Yn olaf, mae'r argymhellion canlynol wedi dod yn amlwg o ganlyniad i ystyried y dystiolaeth a gasglwyd gan y tîm ymchwil:

1. **Angen sicrhau cyllid digonol a pharhaol (h.y. hirdymor) ar gyfer:**
    - **Buddsoddiad yn y grwpiau a'r lleoliadau sy'n cynorthwyo cyd-gynhyrchu.** Mae hyn yn cynnwys defnyddwyr gwasanaeth a rhwydweithiau cymorth i ofalwyr a chyfoedion; a hefyd
    - **Gwaith trawsnewidiol sy'n caniatáu amser ar gyfer deialog a thrafodaeth effeithiol yn cynnwys yr holl randdeiliaid.** Mae cyd-gynhyrchu yn seiliedig ar gysylltiadau ac ar ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a chyd-weledigaeth. Mae hyn i gyd yn cymryd amser y  ac mae trosiant sefydliadau a byr-dymhoriaeth yn peryglu popeth. Mae cylch cyllido 12 mis yn rhwystr gwirioneddol i'r gwaith hwn.
2. **Mae angen dysgu a chyfleodd datblygu helaeth ar gyfer y gweithlu ac mae rhaid i hynny gynnwys rhaglenni ar:**
    - **Gwerthoedd ac egwyddorion sy'n sail i gyd-gynhyrchu a llesiant cyd-ddibynnol a thrwy hynny helpu'r gweithlu i werthfawrogi gwerth sefydlu perthynas yn ogystal â chynnig y gwasanaeth craidd.** Gall dulliau holistaidd addysgeg gymdeithasol o fynd ati i ddysgu a datblygu sy'n rhai holistaidd - datblygu agweddau personol a pherthynol o ofal cymdeithasol - fod o werth yn y broses hon o ddysgu a datblygu;

- **Dulliau ymarferol i gynorthwyo dysgu deialog, gwneud penderfyniadau ystyriol, a gwerthuso cyfranogol**. Yr hyn sy'n hanfodol yma ydy helpu pobl i symud ymlaen o fwriadau da i arferion da mewn cyd-gynhyrchu. Ariannodd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru raglen Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir (DEEP) a gweithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru i hyrwyddo dulliau naratif a deialog o fynd ati i ddysgu a datblygu a hyfforddi a ddarparwyd gan Rwydwaith Cyd-Gynhyrchu Cymru – model a ddylid ei gynnal a'i ledaenu; a hefyd
- **Galluogi llai o wneud penderfyniadau hierarchaidd sy'n cynorthwyo datblygu perthynas, hunan-drefniant, asiantaeth, ymatebolrwydd a chyd-gynhyrchu ar y rheng flaen.** Gallai'r datblygiad ychwanegol sef datblygu rhaglen arweinyddiaeth Gofal Cymdeithasol Cymru a dysgu o fannau eraill fod yn seiliedig ar rwydwaith Systemau Dysgu Dynol y DU gyfan (HLS) a'r rhaglen  Leadership for Learning (LfL) ym maes addysg a model nyrsio cymunedol Buurtzorg.

3. **Dylid dathlu arferion da ym maes cydgynhyrchu ledled Cymru a dylid rhoi cyhoeddusrwydd iddyn nhw fel ffynhonnell ysbrydoliaeth i eraill.** Adeiladu ar fentrau cyhoeddusrwydd cyd-gynhyrchu blaenorol fel astudiaethau achos 'All In This Together/Pawb yn Hyn gyda'n Gilydd' a'r gwaith arddangos wneir gan Rwydwaith Cydgynhyrchu Cymru. Amlygu a hyrwyddo gwaith y rhai sydd wedi dod o hyd i ffyrdd effeithiol o wireddu cydgynhyrchu, a'u cefnogi i ddatblygu eu gwaith ymhellach. Hefyd, annog pobl i rannu gwersi a ddysgwyd o fethiant arbrofol yn ogystal â llwyddiant.

4. **Dylai cymorth emosiynol ac ymarferol fod ar gael mewn ffordd gadarn a chyson i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr sy'n rhannu'r gweithgareddau cydgynhyrchu hynny sy'n aml yn rhai personol a phoenus.** Rhaid cydnabod a mynd i'r afael â llafur emosiynol cydgynhyrchu, gan adeiladu ar wersi o'r mudiad 'gofal tosturiol' a chanllawiau cyfranogiad presennol fel Safonau'r DU ar gyfer Cynnwys y Cyhoedd mewn ymchwil.

5. **Dylid hyrwyddo a chefnogi mwy o gydgynhyrchu – er enghraifft, gyda'r bobl sydd fwyaf angen eu cydnabod fel y gallan nhw elwa o ddulliau cydgynhyrchiol, megis:**

- **Y rhai sydd ar y cyrion yn aml - fel pobl â namau ar y synhwyrau a rhieni sy'n ymwneud â diogelu plant.** Mae'n ymddangos mai'r bobl hyn sy'n elwa fwyaf o gydgynhyrchu, ond yn aml mae ganddyn nhw ddiffyg hyder. Gellir mynd i'r afael â hyn drwy fuddsoddi mewn eiriolaeth cymheiriaid ac adeiladu ar arferion da;[8] a hefyd
- **Gofalwyr di-dâl, er mwyn cydnabod eu cyfraniad enfawr at ofal a chymorth a sicrhau eu bod yn ganolog i gydgynhyrchu.** Mae angen cefnogi newid sylweddol o ran gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr di-dâl, a gallai hyn gynnwys adeiladu ar arferion da.[9]

6. **Dylid herio ymagweddau at ofal a chymorth sy'n brynwriaethol, yn dadol ac yn ymrannol rhwng y "ni a nhw", a dylid hybu diwylliant o ddwyochredd, cydgefnogaeth a gweithredu ar y cyd.** Gallai hyn gynnwys hyrwyddo'r Fframwaith Synhwyrau (Nolan, 2006) sy'n amlinellu llesiant rhyngddibynnol defnyddwyr gwasanaeth, gofalwyr di-dâl ac ymarferwyr, a dylid annog yn gryf natur cilyddol y gofal a chymorth sy'n canolbwyntio ar berthnasoedd. Byddai adeiladu ar arferion da yn fanteisiol.[10]

[8] Gweler er enghraifft hanes Prosiect Barnardo, sef: Barnardo's Reflect Project.

[9] Gweler er enghraifft hanes am Grŵp Cefnogaeth Cymheiriaid Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, sef: The Grapevine.

[10] Gweler yr enghraifft o Goleg Adfer Iechyd Meddwl Caerdydd a'r Fro ar: Cardiff and Vale Mental Health Recovery College, ble mae'r cyfan o'r cyrsiau hyfforddi'n cael eu cyd-gynllunio a'u cyd-gyflwyno.

# 5. Cyfeiriadau


Escobar, O. (2011) *Public dialogue and deliberation: a communication perspective for public engagement practitioners*, Caeredin/Edinburgh: Edinburgh Beltane

Llewellyn, M., Verity, F. a Wallace, S (argr) (2020). *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014: Adolygiad Llenyddiaeth*. Caerdydd. Lywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 60/2020. Ar gael yn: Adolygiad Llenyddiaeth.

Llewellyn M., Verity F., Wallace S. & Tetlow S. (2022). *Disgwyliadau a Phrofiadau Safbwynt Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr ar Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).* Caerdydd: Llywodraeth Cymru. Ar gael yn: Disgwyliadau a Phrofiadau

Llewellyn M, Verity F, Wallace S, Calder G, Garthwaite T, Lyttleton-Smith J, and Read S (2023). O'r Ddeddf i'r Effaith? Adroddiad Terfynnol *Gwerthusiad o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Caerdydd. Llywodraeth Cymru, r*hif adroddiad GSR 36/2023. Ar gael yn: Adroddiad Terfynnol.

Patton, M. Q. (2018). *Principles-Focused Evaluation - The GUIDE.* Efrog Newydd / New York: Guilford Press

Llywodraeth Cymru (2015a). *Social Services and Well-being Act 2014: Part 2 Code of Practice (General Functions)*. Cardiff. Welsh Government. Available at: Social Services and Well-being Act 2014: Part 2 Code of Practice (General Functions).